

Rhaglen Gyflawn



**Cyd-Bwyllgor Corfforedig
Gogledd Cymru
North Wales
Corporate Joint Committee**

Cyfarfod

IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL CBC Y GOGLEDD

Dyddiad ac Amser

2.00 y.h., DYDD LLUN, 2AIL TACHWEDD, 2026

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

Pwynt Cyswllt

Sera Jane Whitley

serajanewhitley@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 23/10/26)

IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL CBC Y GOGLEDD

Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

Ieuan Williams	Cyngor Sir Ynys Môn
Craig ab Iago	Cyngor Gwynedd
Mike Priestley	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
James Elson	Cyngor Sir Ddinbych
Glyn Banks	Cyngor Sir y Fflint
David Bithell	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Aelodau Cyfetholedig – Heb bleidlais

Cyng Ifor Glyn Lloyd	Parc Cenedlaethol Eryri
Henry Bradshaw	Trafnidiaeth Cymru

Swyddogion Cyswllt Cynghorau Cyfansoddol

Huw Percy	Cyngor Sir Ynys Môn
Dafydd Wyn Williams	Cyngor Gwynedd
Geraint Edwards	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Emlyn Jones	Cyngor Sir Ddinbych
Katie Wilby	Cyngor Sir y Fflint
Darren Williams	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Swyddogion yn bresennol

Alwen Williams	Prif Weithredwr Cyd-bwyllgor
Mark Watkins	Corfforedig y Gogledd
	Pennaeth Gwasanaethau
	Cyfreithiol/Swyddog Monitro
Helen Edwards	Dirprwy Swyddog Monitro
Dewi Morgan	Prif Swyddog Cyllid
David Hole	Rheolwr Rhaglen Gweithredu'r CBC

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

5 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf, 2026 fel rhai cywir.

5. CYFLWYNIAD: ADOLYGIAD GWARIANT AR GYFER CYNIGION RHEILFFYRDD 2027

Trafnidiaeth Cymru i gyflwyno.

6. CYFLWYNIAD: DIWEDDARIAD AR MASNACHFREINIO BYSIAU

Trafnidiaeth Cymru i gyflwyno.

7. RHAGLEN BLWYDDYN 2 Y GRONFA TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL 9 - 24

Adam Graham, Uwch Swyddog Trafnidiaeth i gyflwyno'r adroddiad.

8. ADRODDIAD CHWE MIS YR IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL 25 - 32

Adam Graham, Uwch Swyddog Trafnidiaeth i gyflwyno'r adroddiad.

9. ARCHWILIAD CYNLLUNIO TRAFNIDIAETH RANBARTHOL 33 - 55

Adam Graham, Uwch Swyddog Trafnidiaeth i gyflwyno'r adroddiad.

10. DATGANIAD SEFYLLFA - GWELLIANNAU TRAFNIDIAETH LLANBEDR 56 - 68

Adam Graham, Uwch Swyddog Trafnidiaeth i gyflwyno'r adroddiad.

IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL CBC GOGLEDD CYMRU 13/07/2026

Yn bresennol: Y Cynghorydd David Bithell (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Cadeirydd).

Y Cynghorwyr:

Ieuan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Craig ab Iago (Cyngor Gwynedd), Mike Priestley (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Barry Mellor (Cyngor Sir Ddinbych), a Glyn Banks (Cyngor Sir y Fflint).

Aelodau Cyfetholedig (Heb Bleidlais):

Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd (Parc Cenedlaethol Eryri), Keira Sweenie (Parc Cenedlaethol Eryri) a Henry Bradshaw (Trafnidiaeth Cymru).

Swyddogion Cyswllt Cynghorau Cyfansoddol:

Huw Percy (Cyngor Sir Ynys Môn), Gerwyn Jones (Cyngor Gwynedd), Geraint Edwards (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Emlyn Jones (Cyngor Sir Ddinbych), Katie Wilby (Cyngor Sir y Fflint), Darren Williams (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), a Gwen Thomas (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

Swyddogion yn bresennol:

Mark Watkins (Swyddog Monitro), Dewi Morgan (Swyddog S151), Dave Hole (Rheolwr Rhaglen Gweithredu'r Cydbwyllgor Corfforedig), Adam Graham (Uwch Swyddog Trafnidiaeth), Courtney Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth), a Sera Whitley (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Eraill yn bresennol:

Anthony McKenna (Trafnidiaeth Cymru), Robyn MacNamara (Network Rail), a Jan Chaudhry (Trafnidiaeth Cymru).

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:-

- Alwen Williams (Prif Weithredwr Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd)
- Dafydd Wyn Williams (Cyngor Gwynedd) gyda Gerwyn Jones yn dirprwyo
- Helen Edwards (Dirprwy Swyddog Monitro)

2. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER 2026/27

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd David Bithell yn Gadeirydd yr Is-bwyllgor ar gyfer 2026/27.

3. ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER 2026/27

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Glyn Banks yn Is-gadeirydd yr Is-bwyllgor ar gyfer 2026/27.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

5. MATERION BRYD

Ni godwyd unrhyw faterion bryd.

6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2026 fel rhai cywir.

7. CYFLWYNIAD: RHWYDWAITH GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd diweddariad ar Rwydwaith Gogledd Cymru gan Trafnidiaeth Cymru a Network Rail.

8. MONITRO A GWERTHUSO

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Adam Graham, Uwch Swyddog Trafnidiaeth.

PENDERFYNWYD

Cymeradwywyd y Cynllun Monitro a Gwerthuso ar gyfer y Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol a'r cynlluniau a ariennir gan y Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau'r partneriaid perthnasol.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Pan oedd y Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) wrthi'n datblygu rhaglen o gynlluniau i'w hariannu drwy'r Gronfa Trafnidiaeth Rhanbarthol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau sy'n nodi "Bydd angen i'r CBC sefydlu systemau a chael digon o wybodaeth iddynt oruchwylio pob prosiect yn y rhaglen yn effeithiol, monitro'r hyn a gyflawnir yn ôl yr amserlen ac adrodd am unrhyw newid i'r rhaglen waith ac/neu'r proffil gwariant."

Mae set gwahanol o gyfarwyddiadau desg a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys sut y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig werthuso canlyniadau mewn perthynas â'r Gronfa Trafnidiaeth Rhanbarthol.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad, gan amlygu bod y Cynllun Monitro a Gwerthuso wedi'i fabwysiadu fel rhan o'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Cadarnhawyd bod canllawiau ychwanegol wedi dod i law gan Lywodraeth Cymru ers tro diwethaf i'r adroddiad gael ei gyflwyno i'r Is-bwyllgor.

Tynnwyd sylw bod yr atodiad yn darparu rhestr lawn o gynlluniau a ffynonellau data a ddefnyddiwyd ar gyfer y Broses Monitro a Gwerthuso.

Diolchwyd i'r swyddogion am yr adroddiad.

9. ARCHWILIAD CYNLLUNIO TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Adam Graham, Uwch Swyddog Trafnidiaeth.

PENDERFYNWYD

Nodwyd yr adroddiad.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Dim i'w nodi.

TRAFODAETH

Adroddwyd bod Archwilio Cymru wedi cynnal archwiliad o'r broses Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol ym mis Mai 2026 a mis Mehefin 2026, i ystyried a oedd CBC y Gogledd wedi rhoi'r trefniadau priodol ar waith i gyflawni ei ddyletswyddau Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol statudol a darparu gwerth am arian. Nodwyd bod nifer o unigolion wedi cael eu cyf weld, yn fewnol ac yn allanol, gan gynnwys Cadeirydd yr Is-bwyllgor a'r Uwch Swyddog Trafnidiaeth.

Hysbyswyd nad oedd yr adroddiad gan Archwilio Cymru wedi'i dderbyn eto, ond cadarnhawyd y byddai'n cael ei rannu mewn cyfarfod o'r Is-bwyllgor yn y dyfodol. Cadarnhawyd y byddai'r adroddiad terfynol yn y parth cyhoeddus ar ôl cael ei gyhoeddi.

Nodwyd mai'r unig fater a godwyd gan Archwilio Cymru oedd ynghylch trefniadau monitro'r CBC ar raglen waith yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol, ac yn benodol a oes digon o her a chraffu ar y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Eglurwyd y gall Archwilio Cymru gyflwyno hyn fel argymhelliad i'r Is-bwyllgor. Cadarnhawyd bod Archwilio Cymru yn fodlon fel arall.

10. TREFNIADAU GWNEUD PENDERFYNIADAU AR GYFER RHEOLI'R GRONFA DRAFNIDIAETH RANBARTHOL YN YSTOD Y FLWYDDYN

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Adam Graham, Uwch Swyddog Trafnidiaeth.

PENDERFYNWYD

Y byddai'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol yn argymhell i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig y dylid dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol, y Swyddog Monitro, y Prif Swyddog Cyllid ac arweinwyr trafndiaeth awdurdodau lleol perthnasol, i gymeradwyo a chyflwyno ceisiadau am newid rhanbarthol i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â rheolaeth y Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol yn ystod y flwyddyn.

Dylai'r Is-bwyllgor nodi mai Llywodraeth Cymru fydd yn parhau i wneud penderfyniadau grant terfynol y Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Bydd y penderfyniad hwn yn ein galluogi i wneud penderfyniadau mwy effeithlon ac amserol ynghylch newidiadau i'r gyllideb yn ystod y flwyddyn ac yn gwneud y mwyaf o fanteision cyllid y Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol i Ogledd Cymru.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad, gan amlygu'r disgwyliadau a osodwyd ar y CBC fel rhan o gyfrifoldebau'r Is-bwyllgor o reoli Cronfa Trafnidiaeth Rhanbarthol yn ystod y flwyddyn. Nodwyd ei bod yn ofynnol i'r rhanbarth wneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar gyfer unrhyw newidiadau i'r rhaglen.

Nodwyd ei bod yn anodd ymdopi a'r broses lywodraethu bresennol o wneud penderfyniadau sy'n ofynnol gan yr Is-bwyllgor, lle mae adroddiadau'n cael eu cyflwyno i'r CBC bob chwarter. Eglurwyd bod yr adroddiad hwn yn gofyn i'r Is-bwyllgor wneud argymhelliad i'r CBC am awdurdod dirprwyedig i ganiatáu i benderfyniadau gael eu gwneud. Nodwyd y byddai unrhyw benderfyniad terfynol ar newidiadau i'r rhaglen yn aros gyda Llywodraeth Cymru.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch atebolrwydd democrataidd, cadarnhawyd bod Uchelgais Gogledd Cymru yn monitro'r rhaglen ac yn gweithio'n agos gyda swyddogion ar lefel awdurdod lleol i gyflawni'r Cynllun. Eglurwyd bod hyn yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd a chyfarfodydd chwarterol, a dyma le byddai unrhyw drafodaethau cychwynnol ynghylch atebolrwydd democrataidd yn cael eu nodi. Nodwyd mai'r dull gorau yw cadw cyllid o fewn yr awdurdod lleol y dyrennir yr arian iddynt, ond mae hyn yn dibynnu ar gynlluniau wrth gefn a chapasiti staff yr awdurdodau lleol.

Eglurwyd y byddai'r penderfyniadau o dan sylw yn dal i gael eu gwneud gan aelodau etholedig sydd â'r mandad democrataidd, o ran symud y broses o wneud penderfyniadau o'r CBC i'r Is-bwyllgor fel y nodwyd yn y penderfyniad a geisir.

Nodwyd y byddai'n ddefnyddiol dosbarthu'r rhestr lawn o gynlluniau a'r rhestr wrth gefn fel gwybodaeth i'r aelodau. O ystyried y bydd cyllid yn dod yn uniongyrchol i'r CBC blwyddyn nesaf, nodwyd bod angen i'r Is-bwyllgor fod yn ymwybodol o'r rhestrau cynlluniau ar gyfer y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Cadarnhawyd bod y rhestr o gynlluniau eisoes yn y parth cyhoeddus, ond y byddai'n cael ei gynnwys mewn atodiad pan gyflwynir yr adroddiad i'r CBC.

Dechreuodd y cyfarfod am 14:00 a daeth i ben am 15:20.

Cadeirydd



ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL

2 Tachwedd 2026

TEITL: Rhaglen Blwyddyn 2 y Gronfa Trafnidiaeth Rhanbarthol

AWDUR: Adam Graham, Uwch Swyddog Trafnidiaeth

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Pwrpas yr adroddiad yw hysbysu'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol ynghylch y rhestr arfaethedig o gynlluniau trafndiaeth y ceisir cael Cyllid Trafnidiaeth Rhanbarthol ar eu cyfer dros 2027/28. Cyflwynir y rhestr hwn i'r CBC ar 20 Tachwedd gyda'r argymhelliad bod y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cymeradwyo ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn unol â therfynau amser Llywodraeth Cymru. Bydd hyn hefyd yn cynnwys dyraniad arfaethedig o'r cyllid ar gyfer blwyddyn ariannol 2028/29, yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru. Mae'n cael ei adnabod fel y 'Rhaglen Cynlluniau drafft'.

2. ARGYMHELLION A GEISIR

- 2.1. Bod yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol yn argymell bod y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cymeradwyo'r Rhaglen Cynlluniau drafft i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru.

3. Y RHESWM AM YR ARGYMHELLION

- 3.1. Ymhellach i ganllawiau ariannu Trafnidiaeth Rhanbarthol Llywodraeth Cymru, mae gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig gyfrifoldeb am ddatblygu Rhaglen Cynlluniau pum mlynedd i'w hariannu gan y Gronfa Trafnidiaeth Rhanbarthol ac am ymgymryd â rheolaeth yn ystod y flwyddyn o'r arian grant sy'n cael ei wario.

4. CEFNDIR

- 4.1. Blwyddyn Ariannol 2026/27 yw'r flwyddyn gyntaf i welliannau trafndiaeth yng ngogledd Cymru gael eu hariannu drwy Gronfa Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTF) Llywodraeth Cymru. Mae'r gronfa hon yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r polisiau a'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTP) a'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTDP), sy'n cyfrannu at Llwybr Newydd, sef Strategaeth Drafndiaeth Cymru.
- 4.3. Roedd yr RTP a'r RTDP yn destun proses ddatblygu ac ymgysylltu helaeth, gan gynnwys ymgynghoriad cyhoeddus cyn cael eu cymeradwyo gan yr Is-bwyllgor, y CBC a Llywodraeth Cymru.
- 4.4. Cymeradwywyd rhaglen RTF Blwyddyn 1 (2026/27) gan yr Is-bwyllgor a'r CBC ym mis Tachwedd 2025. Mae awdurdodau lleol yn y rhanbarth erbyn hyn yn symud ymlaen i gyflawni'r cynlluniau a ariannwyd drwy'r broses honno.

- 4.5. Bydd cyllid i gyflawni'r cynlluniau yn 2027/28 yn cael ei ddyfarnu'n uniongyrchol i awdurdodau lleol.

5. RHAGLEN DDRAFFT O GYNLLUNIAU'R GRONFA TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL

- 5.1. Mae Uchelgais Gogledd Cymru, gyda chefnogaeth ymgynghoriaeth gan Arup, wedi gweithio'n agos gyda swyddogion awdurdodau lleol a deiliaid portffolio sy'n Aelodau ar draws y rhanbarth i adnabod rhaglen o gynlluniau ar gyfer 2027/28. Mae Llywodraeth Cymru a swyddogion Trafnidiaeth Cymru hefyd wedi bod yn ymgysylltu yn ystod y broses hon.
- 5.2. Mae'r rhaglen wedi'i dylunio i ffitio o fewn cyllideb ddangosol wedi'i darparu gan Lywodraeth Cymru, sydd i'w gweld yn Nhabl 1. Dyma'r un gyllideb gyfalaf a ddarparwyd i ogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, ac nid yw'n cynnwys unrhyw gynnydd ar gyfer chwyddiant neu unrhyw newidynnau eraill. Nid yw'r gyllideb ddangosol yn cynrychioli dyraniad nac ymrwymiad cyllido y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru, ac mae'r rhaglen derfynol a'r cynlluniau unigol yn parhau i fod yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru.

Rhanbarth y CBC	Cyfalaf (£)	Refeniw (£) (Diogelwch Ffyrdd a Newid Ymddygiad)	Refeniw (£) Gweinyddu'r CBC	Cyfanswm (£)
Gogledd Cymru	28.3m	384k	0.1m	28.784m

Tabl 1

- 5.3. Wrth roi'r rhaglen cynlluniau at ei gilydd, roedd y newidynnau canlynol ymysg yr ystyriaethau allweddol:
- Blaenoriaethu parhad y cynlluniau a ariannwyd eleni sy'n cael eu cyflawni ar draws sawl blwyddyn
 - Polisiâu a dyheadau RTP
 - Blaenoriaethau'r RTDP a'r awdurdod lleol
 - Cyflawni cynlluniau
- 5.4. Gweler y rhaglen ddrafft yn Atodiad 1.

6. CAMAU NESAF

- 6.1. Bydd y Rhaglen Cynlluniau yn cael ei chyflwyno i'r CBC ar 20 Tachwedd.
- 6.2. I sicrhau cydymffurfiaeth ag amserlenni Llywodraeth Cymru, cyflwynwyd rhaglen ddrafft yn unol ag Atodiad 1 i Lywodraeth Cymru ar 30 Hydref.
- 6.3. Yna, bydd Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru yn adolygu'r drafft a darparu sylwadau erbyn 18 Rhagfyr. Wedyn, bydd Uchelgais Gogledd Cymru ac Arup yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ymateb i sylwadau cyn cyflwyno fersiwn terfynol erbyn 30 Ionawr 2027.
- 6.4. Bydd Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r rhaglen ac yn anfon llythyrau o gynnig i awdurdodau lleol erbyn diwedd mis Mawrth 2027, a bydd awdurdodau lleol yn dechrau cyflawni'r cynlluniau o fis Ebrill 2027.

7. GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 7.1. Bydd cyllid ar gyfer cyflawni cynlluniau yn cael ei ddyfarnu'n uniongyrchol i awdurdodau lleol, felly nid yw'n cael effaith ariannol uniongyrchol ar y CBC.
- 7.2. Er mwyn cefnogi a darparu adnoddau ar gyfer y gwaith o gydlynu a gweinyddu i'r CBC, mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn caniatáu i'r CBC hawlio cost cefnogi rheoli rhaglen o gyllideb yr RTF yn flynyddol. Gwneir hyn i osgoi dosrannu costau ar gyfer rheolaeth gyffredinol y CBC o'r rhaglenni i bob prosiect ac i alluogi arbedion maint. Bydd hyn hefyd yn caniatáu i bob awdurdod ganolbwyntio ar ddylunio a chyflawni'r cynlluniau. Dangosir swm y cyllid arfaethedig i'w hawlio gan y CBC yn y ffigyrau yn Atodiad 1.

8. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

- 8.1. Mae gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ddyletswydd statudol i baratoi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cyfres o Ganllawiau a Chyfarwyddiadau Desg i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig er mwyn iddynt ddatblygu eu Rhaglen Cynlluniau ar gyfer 2027/28. Mae'r rhaglen sydd i'w gweld yn atodiad 1 wedi'i datblygu yn unol â'r canllawiau hynny.

ATODIADAU:

Atodiad 1: Rhaglen Cynlluniau Drafft

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Mae'r rhaglen yn cael ei datblygu drwy broses fesul cam i fodloni amserlen ariannu Llywodraeth Cymru, gyda chyflwyniad cychwynnol o'r drafft yn digwydd cyn iddo gael ei ystyried gan y CBC. Bydd barn yr Aelodau yn llywio'r ystyriaeth honno, ac efallai y bydd diwygiadau pellach yn dilyn adborth Llywodraeth Cymru cyn y cyflwyniad terfynol ym mis Ionawr. Mae ystyriaeth y CBC a'r trefniadau ar gyfer cymeradwyo'r rhaglen derfynol yn rhoi cyfleoedd i oruchwylio'r blaenoriaethau arfaethedig ac unrhyw newidiadau sylweddol."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Mae cynnwys yr adroddiad yn amlinellu'r camau sydd i'w cymryd wrth ddatblygu'r cynllun trafndiaeth rhanbarthol. Rwyf yn fodlon fod cynnwys yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa ariannol. Bydd Cyllid yn parhau i gydweithio gyda'r swyddogion perthnasol wrth i'r cynllun ddatblygu."

		RTP Year 2 FY2027-28		
		Capital	Revenue	TOTAL
Cyd-Bwllgor Corfforedig				
Rheoli a monitro rhaglenni		£250.0k	£100.0k	£350.0k
Cyfanswm		£250.0k	£100.0k	£350.0k
Conwy				
Diogelwch Ffyrdd				
Refeniw Diogelwch Ffyrdd - Kerbcraft	279a		£45.0k	£45.0k
Refeniw Diogelwch Ffyrdd - Cycle Training	279b		£13.5k	£13.5k
Refeniw Diogelwch Ffyrdd - Older Driver	279c		£2.0k	£2.0k
Refeniw Diogelwch Ffyrdd - PassPlus Cymru	279d		£2.0k	£2.0k
Refeniw Diogelwch Ffyrdd - Bike Safe	279e		£2.0k	£2.0k
Teithio Llesol				
Teithio Llesol Bae Penrhyn	175	£1.0m		£1.0m
Llwybr Teithio Llesol Strategol Towyn i'r Rhyl	176	£10.0k		£10.0k
Teithio Llesol Dolgarrog	177	£50.0k		£50.0k
Môr i'r Mynydd/ Llwybr Teithio Llesol Strategol o'r Arfordir i'r Dyffryn	178	£100.0k		£100.0k
Teithio Llesol Canol Tref Bae Colwyn	180	£100.0k		£100.0k
Cyllid Craidd	ATC1	£260.0k		£260.0k
Cerbydau allyriadau isel				
Pwyntiau gwefru cyhoeddus	166	£300.0k		£300.0k
Priffyrdd				
A470 Pont Dros y Rheilffordd Cyffordd Llandudno	193a	£750.0k		£750.0k
Promenâd Bae Colwyn - Ffordd Rotari i Borth Eirias	196	£1.0m		£1.0m
A470	193b	£100.0k		£100.0k
Cyfanswm		£3.67m	£64.5k	£3.73m
Sir Ddinbych				
Diogelwch Ffyrdd				
Gwelliannau capasiti a diogelwch / gwelliannau mannau cyfyng: Safleoedd Clwstwr Gwrthdrawiadau	125	£100.0k		£100.0k
Refeniw Diogelwch Ffyrdd: Ymyriadau Addysgol	279f		£80.0k	£80.0k
Teithio Llesol				
Ffordd Nant Hall, Prestatyn	81	£500.0k		£500.0k
Pont H, Y Rhyl	87	£400.0k		£400.0k
Lenten Pool, Dinbych	89	£100.0k		£100.0k
B4501 i Lôn Dewi Sant, Dinbych	275	£100.0k		£100.0k
Lôn Hylas/ Stryd y Castell, Rhuddlan	83	£400.0k		£400.0k
Pont Reilffordd Afon Clwyd, y Rhyl / Bae Cinmel	86	£800.0k		£800.0k
Mill Street, Llangollen	NS1	£100.0k		£100.0k
Cyllid Craidd	ATC2	£500.0k		£500.0k
Cludiant cyhoeddus				
Gwelliannau parhaus i'r isadeiledd bysiau, gan gynnwys mesurau blaenoriaeth bysiau, gwelliannau i gyfeusterau mynd ar fysiau, arwyddion, arosfannau bysiau a darpariaeth lloches.	15	£150.0k		£150.0k
Cerbydau allyriadau isel				
Pwyntiau gwefru Cerbydau	167	£85.0k		£0.0
Priffyrdd				
Green Lanes, Prestatyn	NS4	£250.0k		£250.0k
A548 Pont Foryd	NS5	£100.0k		£100.0k
Cyfanswm		£3.5m	£80.0k	£3.6m
Sir y Fflint				
Diogelwch Ffyrdd				
Refeniw Diogelwch Ffyrdd - Older Driver	279g		£6.0k	£6.0k
Refeniw Diogelwch Ffyrdd -Cycle Training	279h		£72.0k	£72.0k
Refeniw Diogelwch Ffyrdd - Bikesafe	279i		£8.0k	£8.0k
Gwelliannau capasiti a diogelwch / gwelliannau mannau cyfyng: Safleoedd Clwstwr Gwrthdrawiadau - cyffyrdd gwledig	120a	£300.0k		£300.0k
Gwelliannau capasiti a diogelwch / gwelliannau mannau cyfyng: Safleoedd Clwstwr Gwrthdrawiadau - Mold/Pontblyddyn	120b	£300.0k		£300.0k
Teithio Llesol				
Llwybrau Diogel mewn cymunedau/ cludiant o'r cartref i'r ysgol -Ysgol Trelogan	72	£300.0k		£300.0k
Begon i'r Fflint	200	£750.0k		£750.0k
Cyngiadau Teithio Llesol i Pont Dyfrdwy'r A494	198	£660.0k		£660.0k
Cyngiadau Teithio Llesol i'r Fflint	ATC3	£710.0k		£710.0k
Cludiant cyhoeddus				

RTP Year 2			
FY2027-28			
	Capital	Revenue	Total
Cyngor			
Conwy	£3.67m	£64.5k	£3.7m
Sir Ddinbych	£3.50m	£80.0k	£3.6m
Sir Y Fflint	£4.18m	£86.0k	£4.3m
Gwynedd	£6.74m	£73.8k	£6.8m
Ynys Mon	£4.88m	£44.9k	£4.9m
Wrecsam	£9.75m	£74.3k	£9.8m
Cyd-Bwllgor Corffore	£350.0k	£100.0k	£450.0k
Cyfanswm	£32.7m	£523.4k	£33.2m
Cyfanswm sydd ar gael	£28.7m	£384.0k	£29.1m

Rhwydwaith bysiau a choet sis gwledig rhanbarthol, Sir y Fflint	103	£100.0k		£100.0k
Gwella Seilwaith Bysiau Gogledd Cymru - mesurau blaenoriaethu bysiau	170	£30.0k		£30.0k
Cerbydau allyriadau isel				
Pwyntiau gwefru Cerbydau	163	£400.0k		£400.0k
Priffyrdd				
Gwella capasiti a diogelwch / gwelliannau mannau cyfyng: adnewyddu goleuadau stryd	126	£80.0k		£80.0k
Cynnal a Gwella priffyrdd, Sir y Fflint	157	£550.0k		£550.0k
Cyfanswm		£4.18m	£86.0k	£4.3m
Gwynedd				
Diogelwch Ffyrdd				
Gwelliannau capasiti a diogelwch / gwelliannau mannau cyfyng: Safleoedd Clwstwr Gwrthdrawiadau yng Ngwynedd	122	£150.0k		£150.0k
Refeniw Diogelwch Ffyrdd: Ymyriadau Addysgol	279j		£73.8k	£73.8k
Teithio Llesol				
Gwella Teithio Llesol Lleol mewn prif aneddiadau	207	£200.0k		£200.0k
Llwybr Teithio Llesol Tywyn i Aberdyfi	250	£800.0k		£800.0k
Cyllid Craidd	ATC4	£500.0k		£500.0k
Llwybr Teithio Llesol Bethel i Gaernarfon	219	£200.0k		£200.0k
Gwella'r Lôn Las. Gwella llwybrau beicio oddi ar y ffordd presennol, Lôn las Ogwen, Lôn Las Menai a Lôn Eifion	218	£350.0k		£350.0k
Llwybrau Diogel mewn cymunedau/ cludiant o'r cartref i'r ysgol, Gwynedd	74	£300.0k		£300.0k
Cludiant cyhoeddus				
Gwelliannau parhaus i'r isadeiledd bysiau, gan gynnwys mesurau blaenoriaeth bysiau, gwelliannau i gyfleusterau mynd ar fysiau, arwyddion, arosfannau bysiau a darpariaeth lloches.	12	£500.0k		£500.0k
Rhwydwaith bysiau a choet sis gwledig rhanbarthol Gwynedd - Sherpar. G23 & 2 Fflecsi	105	£1.1m		£1.1m
Cerbydau allyriadau isel				
Pwyntiau gwefru Cerbydau	165	£150.0k		£150.0k
Priffyrdd				
Gwelliannau i Drafnidiaeth Llanbedr	147	£1.8m		£1.8m
Gwelliannau Cydnerthedd Rhwydwaith Trafnidiaeth: A499 Ffordd Penrhos – gwelliannau i liniaru llifogydd	151	£120.0k		£120.0k
Cynnal a gwella priffyrdd, Gwynedd	162	£500.0k		£500.0k
Porth Caernarfon	154	£120.0k		£120.0k
Cyfanswm		£6.74m	£73.8k	£6.8m
Ynys Môn				
Diogelwch Ffyrdd				
Cyfalaf Diogelwch Ffyrdd: Gwella Digwyddiadau ar y Briffordd	280	£300.0k		£300.0k
Refeniw Diogelwch Ffyrdd - Kerbraff	279k		£27.9k	£27.9k
Refeniw Diogelwch Ffyrdd - PassPlus Cymru	279l		£4.5k	£4.5k
Refeniw Diogelwch Ffyrdd - Beicio	279m		£10.9k	£10.9k
Refeniw Diogelwch Ffyrdd - Older Driver	279n		£1.6k	£1.6k
Teithio Llesol				
Llwybrau Diogel mewn cymunedau/ cludiant o'r cartref i'r ysgol, Ynys Môn	73	£150.0k		£150.0k
Teithio Llesol Llanfairpwll (Lôn Refail i Lôn Graig)	256	£150.0k		£150.0k
Teithio Llesol Benllech	258	£1.9m		£1.9m
Teithio Llesol Gaerwen	259	£130.0k		£130.0k
Teithio Llesol Amlwch	261	£75.0k		£75.0k
Teithio Llesol London Road i Orsaf Caergybi	NS2?	£150.0k		£150.0k
Cyllid Craidd	ATC5	£500.0k		£500.0k
Cludiant cyhoeddus				
Integreiddio â gwasanaethau trafnidiaeth cyhoeddus strategol: Gwelliannau i'r isadeiledd trafnidiaeth gyhoeddus yn Ynys Môn	11	£250.0k		£250.0k
Teithiau tacsï â chymorthdal mewn ardaloedd gwledig i lenwi "bylchau" mewn trafnidiaeth gyhoeddus ar Ynys Môn	112	£65.0k		£65.0k
Cerbydau allyriadau isel				
Pwyntiau gwefru Cerbydau	164	£180.0k		£180.0k
Priffyrdd				
Annog teithio cynaliadwy: Gwelliannau i gylchfan Four Crosses A5025/ B5420	49	£150.0k		£150.0k
Safleoedd Lairds Ffordd Biwmares	156	£75.0k		£75.0k
Prosiect Ffordd Cydnerthedd yr A5 (Pentre Berw)	253	£80.0k		£80.0k
Cyfnewidfa Drafnidiaeth Niwbwrch	254	£250.0k		£250.0k
Highway Maintenance and Improvements, Ynys Môn: Innovative maintenance trials	158	£350.0k		£350.0k
Rheoli a monitro rhaglenni				
rheoli prosiectau	NS6	£123.0k		£123.0k
Cyfanswm		£4.88m	£44.9k	£4.92m
Wrecsam				
Diogelwch Ffyrdd				
Refeniw Diogelwch Ffyrdd - Bike Safe	279o		£2.0k	£2.0k

Refeniw Diogelwch Ffyrdd - Bike Safe Lite	279p		£2.0k	£2.0k
Refeniw Diogelwch Ffyrdd - Older Driver	279q		£400.0	£400.0
Refeniw Diogelwch Ffyrdd - sgiliau cerdded i blant	279r		£9.9k	£9.9k
Refeniw Diogelwch Ffyrdd - Cycle Training	279s		£60.0k	£60.0k
Teithio Llesol				
Teithio llesol fel cludiant o'r cartref i'r ysgol, Wrecsam	71	£200.0k		£200.0k
Cyllid Craidd	ATC6	£450.0k		£450.0k
Coridor Teithio Llesol Ffordd yr Wyddgrug, Gwersyllt	61	£300.0k		£300.0k
Coridor teithio llesol Ffordd yr Wyddgrug (Canol y ddinas)	52a	£5.0m		£5.0m
Coridor teithio llesol Ffordd yr Wyddgrug (Canol y ddinas)	52b	£250.0k		£250.0k
Teithio llesol ardal Rhostyllen (Phase B)	58	£600.0k		£600.0k
Wrecsam - Gwersyllt trwy Rhosrobin	67	£200.0k		£200.0k
Cludiant cyhoeddus				
Gwelliannau i seilwaith bysiau	13	£50.0k		£50.0k
Gorsaf fysiau Wrecsam	NS3	£200.0k		£200.0k
Cerbydau allyriadau isel				
Pwyntiau gwefru Cerbydau	268	£1.0m		£1.0m
Priffyrdd				
Treialon cynnal a chadw arloesol, Wrecsam	159	£1.5m		£1.5m
Cyfanswm		£9.75m	£74.3k	£9.8m

Reserve List

	Scheme	RTF Scheme Theme	Q1	Q2	Q3	Q4	Cyfanswm
Gwynedd							
Llwybr Teithio Llesol Llanberis i Gaernarfon	220	Teithio Llesol	£220.0k	£220.0k	£220.0k	£220.0k	£880.0k
Conwy							
Teithio Llesol Llysfaen	182	Teithio Llesol	£162.5k	£162.5k	£162.5k	£162.5k	£650.0k
Gwella llwybr y B5106	186	Priffyrdd	£187.5k	£187.5k	£187.5k	£187.5k	£750.0k



**ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL
2 Tachwedd 2026**

TEITL: Adroddiad Chwe Mis yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol

AWDUR: Adam Graham, Uwch Swyddog Trafnidiaeth

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Ystyried yr adroddiad chwe mis yn ôl yr angen, fel y nodir yn y Cylch Gorchwyl.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Ystyried yr adroddiad a gwneud argymhellion yn ôl yr angen i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Is-bwyllgor yn ei gwneud yn ofynnol bod adroddiad diweddarau yn cael ei gynhyrchu ddwywaith y flwyddyn.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae'r Cylch Gorchwyl yn nodi y bydd yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol yn paratoi adroddiad ddwywaith y flwyddyn ar ei waith ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

4.2. Cyd-destun adroddiad o'r fath yw sicrhau bod gwaith yr Is-bwyllgor yn agored ac yn dryloyw a bod ei swyddogaethau'n cael eu cyfathrebu'n glir.

4.3. Mae'r Cylch Gorchwyl yn darparu y bydd adroddiadau chwe misol yn ffurfio rhan o brotocol craffu cytunedig a bydd ar ffurf a fydd yn hwyluso ei gyflwyno i drefniadau Craffu neu drefniadau llywodraethu eraill fel y pennir gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

5. CRONFA TRAFNIDIAETH RANBARTHOL 2026/27

5.1. Ar ddechrau blwyddyn ariannol 2026/27, daeth Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Llywodraeth Cymru yn ffynhonnell ariannu bwysig ar gyfer ymyraethau trafndiaeth a nodwyd yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTDP). Gweithiodd Uchelgais Gogledd Cymru, wedi'i gefnogi gan ymgynghorwyr allanol, yn agos gyda swyddogion o awdurdodau lleol i adnabod Rhaglen Cynlluniau i'w hariannu yn 2026/27, a oedd yn adlewyrchu'r cynlluniau a flaenoriaethwyd gan yr RTDP, dyheadau awdurdod lleol a'r gyllideb ddangosol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Cytunwyd ar y rhaglen gan yr Is-bwyllgor ac yna'r CBC yn hydref 2025, cyn ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

5.2. Rhoddir cyllid i gyflawni'r cynlluniau i awdurdodau lleol. Roedd cyfanswm yr arian a roddwyd i awdurdodau gogledd Cymru yn £28.3m cyfalaf, a £0.48m refeniw. Dechreuwyd cyflawni'r cynllun ar 1 Ebrill 2026.

- 5.3. Ers hynny, mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu rhaglen cynlluniau'r Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol ar gyfer blwyddyn ariannol 2027/28. Mae hyn yn ddibynnol ar ystyriaeth fwy manwl mewn eitem arall ar y rhaglen.

6 YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD GAN SEFYDLIADAU PARTNER

- 6.1 Ers yr adroddiad chwe misol diwethaf, mae ymateb ymgynghoriad wedi'i anfon at Drafnidiaeth Cymru i sicrhau yr ystyrir dyheadau Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol y rhanbarth fel rhan o'r ymgynghoriad masnachfaint bysiau. Gweler yr ymateb yn Atodiad 1.

7. PERFFORMIAD ARIANNOL

- 7.1 Drwy'r Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol, sicrhodd y CBC gyllid o £370k cyfalaf a £100k refeniw gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rheoli rhaglen y Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol. Roedd adrodd ar ddiwedd Chwarter 2 yn cynnwys y gwariant a ddangosir yn Atodiad 2.
- 7.2 Yn rhannol, mae'r dyraniad cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i ariannu tîm o dri staff yn gweithio ar gylch gwaith trafnidiaeth strategol y CBC.
- 7.3 Defnyddiwyd gwariant ariannol o'r cyllid hwnnw ar gyfer cymorth ymgynghori i barhau â chomisiwn Arup sydd wedi darparu cymorth technegol a gwaith i gwblhau'r RTP a'r RTDP, a chydlynu Rhaglen Cynlluniau'r Gronfa Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae'r gwariant hefyd yn cynnwys amser swyddogion ar gyfer swyddogion y Cyd-bwyllgor sydd wedi gweithio ar ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol.
- 7.4 Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn prynu cefnogaeth gan Gyngor Gwynedd. Mae hyn yn darparu amser swyddogion ar gyfer cymorth ar wasanaethau cyfreithiol, gwasanaethau democrataidd a chefnogaeth gyllidol.

8. RHEOLI ADNODDAU

- 8.1 Mae cyfrifoldebau trafnidiaeth y CBC wedi tyfu wrth i ni symud i gam cyflawni cynlluniau'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol y Flwyddyn Ariannol hon. Ynghyd â chydlynu rhanbarthol, materion trafnidiaeth strategol sy'n effeithio'r rhanbarth, a chyfrannu i waith ehangach Uchelgais Gogledd Cymru; mae'r CBC yn gyfrifol am weithio gydag awdurdodau lleol i gefnogi a monitro cynnydd a gwariant cynllun Cronfa Drafnidiaeth Ranbarthol Blwyddyn 1 parhaus, ac adnabod a blaenoriaethu rhaglen Blwyddyn 2. Mae hyn wedi golygu bod angen recriwtio staff ychwanegol i gefnogi'r Uwch Swyddog Trafnidiaeth. Mae'r tîm o dri erbyn hyn yn cynnwys:
- Uwch Swyddog Trafnidiaeth (secondiad o Drafnidiaeth Cymru)
 - Swyddog Trafnidiaeth (cyflogaeth am gyfnod penodol)
 - Swyddog Trafnidiaeth (secondiad o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam)
- 8.2 Fel y nodwyd yn adran 7, daw cyllid ar gyfer yr adnoddau staff hyn o ddyraniad y Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol.

9. GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 9.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn deillio o'r adroddiad hwn, ond cynghorir Aelodau i nodi diweddariad y perfformiad ariannol yn Adran 7.

10. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

10.1. Rhoddir sylw i'r goblygiadau cyfreithiol a llywodraethu yng nghorff yr adroddiad.

ATODIADAU:

Atodiad 1 – Ymateb i ymgynghoriad ar fysiau

Atodiad 2 – Adrodd Ariannol

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. **Swyddog Monitro:**

“Mae’r adroddiad chwe misol yn cael ei gyflwyno yn unol â Chylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor a’r trefniadau llywodraethu ehangach. Nid oes gennyf unrhyw sylwadau cyfreithiol na llywodraethu ychwanegol.”

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**

“Mae’r adroddiad yn amlinellu’r sefyllfa dros y misoedd diwethaf a ni fyddai cymeradwyo’r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymïadau ariannol newydd. Nid oes gennyf wrthwynebiad i gynnwys yr adroddiad.”



Atodiad 2									
Enw'r cynllun	RTF dyraniad 2026/27 (£)	Gwir wariant ar y cyfrifyfr yn 2026/27	Arian wedi'i ymrwymo yn 2026/27	Amcan werth ¹ y gwaith / gweithgareddau a gyflawnwyd yn 2026/27 (£)	Gweithgareddau allweddol yn y cyfnod sydd dan sylw yn yr adroddiad	Gweithgareddau allweddol wedi'u cynllunio ar gyfer y chwarter nesaf (dim mwy na 50 o eiriau)	RTF rhagolygon alldro 2026/27 (£)	Hawliad RTF Ch1 ³ (£)	Hawliad RTF Ch2 ³ (£)
Refeniw - Gweinyddol RTP	£100,000.00	£26,206.83	£81,188.49	£100,000.00	Cefnogaeth ymgynghorol barhaus i ddatblygu rhaglen RTF Blwyddyn 2, ac ar gyfer gwaith monitro.	Cefnogaeth barhaus i gwblhau'n derfynol y rhaglen Blwyddyn 2 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn Chwarter 3. Ffocws cynyddol ar fonitro a gwerthuso i gwrdd â gofynion Llywodraeth Cymru a'n prosesau llywodraethu ein hunain.	£100,000.00	£19,694.27	£6,512.56
Cyfalaf - Rheoli a Monitro RTP	£370,000.00	£30,951.58	£152,649.38	£370,000.00	Recriwtio'r Tîm Trafnidiaeth - dau Swyddog Trafnidiaeth newydd wedi'u recriwtio yn Ch2, gan greu tîm o dri. Ymgysylltu â'r Walk Wheel Cycle Trust ar	Cadw staff, gan ganiatáu mwy o wydnwch a rôl gynyddol ar gyfer y CBC o ran gweithio rhanbarthol a chefnogi awdurdodau lleol gyda'r rhaglen RTF. Cwblhau'r broses gaffael ar gyfer y Walking Wheeling and Cycling Trust cyn i'r Walking and Cycling Index ddechrau. Recriwtio'r tîm llawn - a gwell dealltwriaeth o'r gost am hynny - bydd yn rhoi darlun cliriach o'r gyllideb sydd ar gael i fwrw ymlaen ag unrhyw	£370,000.00	£0.00	£30,951.58



					ymglymiad y Walking and Cycling Index.	gynlluniau ymrwymiadau RTP.	cofrestr			
--	--	--	--	--	--	--------------------------------	----------	--	--	--

Drwy e-bost

I engagement@tfw.wales
Rebecca.Colmer@tfw.wales

Dyddiad: Hydref 2026

Annwyl Dîm Ymgysylltu Trafnidiaeth Cymru

YMATEB CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD I'R YMGYNHORIAD AR Y CYNIGION I DDIWYGIO'R GWASANAETH BWS

Diolch i chi am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad ar y cynigion i ddiwygio'r gwasanaeth bws. Gellir gweld ymateb Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd isod. Y bwriad yw ategu at yr ymatebion gan y chwe awdurdod lleol yng ngogledd Cymru, a byddem yn cefnogi unrhyw newidiadau penodol i neu bryderon am y cynigion a godwyd gan awdurdodau unigol o'r rhanbarth yn eu hymatebion.

Cyfle i Ymgysylltu

Mae uwch swyddogion Trafnidiaeth Cymru wedi mynychu nifer o gyfarfodydd o Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol y CBC i ddiweddarau Aelodau am y cynigion sydd wedi eu datblygu ar gyfer y rhwydwaith masnachfaint bysiau. Roedd masnachfreintio yn rhoi cyfle go iawn i wella gwasanaethau bws i gymunedau yn y gogledd ac felly croesawyd yr ymgysylltiad yma gyda'r aelodau a hoffem wahodd Trafnidiaeth Cymru i gyfarfodydd yn y dyfodol fel y daw canfyddiadau'r ymgynghoriad i'r amlwg ynghyd â'r cynigion terfynol i weithredu yn cael eu datblygu.

Yn ogystal, mae'r gweithio agos gyda swyddogion ar lefel yr awdurdod lleol ar y rhwydwaith sylfaen wedi caniatáu i wybodaeth leol siapio'r cynigion, ac fe groesawyd hyn.

Fodd bynnag, fel y corff sy'n gyfrifol am gynllunio trafndiaeth strategol ar draws y rhanbarth, mae yn siomedig nad yw Uchelgais Gogledd Cymru wedi bod yn ymgysylltu ar lefel swyddogion ar ddatblygiad y cynigion cyn iddynt fynd allan i ymgynghori gyda'r cyhoedd.

Yn olaf, ynglŷn ag ymgysylltu, mae wedi bod yn braf gweld y niferoedd a ddaeth a lledaeniad daearyddol y digwyddiadau galw heibio i'r cyhoedd a gynhaliwyd fel rhan o'r broses, yn ogystal â faint o wybodaeth a ddarparwyd ar-lein. Mae hyn wedi caniatáu i bobl o gymunedau ar draws y gogledd i ymgysylltu â'r ymgynghoriad pwysig hwn.

Dyheadau'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

Cydnabuwyd pwysigrwydd y newid i fasnachfreintio yng Nghynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, drwy Bolisi PT1, oedd yn ymrwmo i "weithio gyda Thrafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru i gefnogi cyflwyniad masnachfreintio bysiau yng ngogledd Cymru, a ddylai gynnwys cyllid aml-flwyddyn fyddai'n rhoi sicrwydd i'r cyhoedd sy'n teithio, yr awdurdodau a gweithredwyr."

Roedd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi ein dyhead am y rhwydwaith fysiau yr hoffem ei gweld yng ngogledd Cymru a'i chyflawni drwy'r cyfleoedd mae masnachfreintio yn eu cynnig.

- **Polisi PT2:** Dylai pob bws newydd sy'n cael ei gyflwyno yng ngogledd Cymru fod yn ddi-allyriadau. Pan fo bysiau newydd yn welliant hirdymor, dylid chwilio am gyfle i ail-bweru'r fflyd gyfredol.
- **Polisi PT4:** Bydd y Rhwydwaith Trawsnewid Gwasanaeth Bws yn cael ei chyflwyno yng ngogledd Cymru. Bydd hyn yn cynnwys rhwydwaith craidd o wasanaethau rhwng ac o fewn aneddeleoedd mawr a safleoedd cyflogaeth gydag amllder o ddau i bedwar bws yr awr, yn ymestyn i gyda'r nos.
- **Polisi PT5:** Bydd gwasanaethau bws y dyfodol yng ngogledd Cymru yn cynnwys yr isod:
 - Amllder uchel ac oriau gweithredu hir
 - Amseroedd ymadael rheolaidd/cyson
 - Amserlenni ar ddydd Sul mor agos at amllder gwasanaeth yn ystod dyddiau'r wythnos â phosib i gefnogi'r galw o gymudo, hamdden a'r economi ymweld
 - Wedi'u cydlynu i ddarparu amserlen synhwyrol
 - Lleihau amseroedd teithio rhwng y mannau gwreiddiol a'r cyrchfannau gyda'r galw uchaf
 - Defnyddio llwybrau uniongyrchol sy'n aros yr un fath drwy'r dydd
 - Bydd y llwybr yn mynd drwy gyfnewidfeydd trafniadaeth a gorsafoedd rheilffordd
 - Wedi'u hintegreiddio gyda'r gwasanaethau bws lleol a thrafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw deinamig
 - Yn gyfforddus ar gyfer teithiau hir

Nid yw'r cynigion a amlinellir yn yr ymgynghoriad presennol yn mynd mor bell â chyflawni'r uchelgeisiau hynny; mae'r cynigion sy'n destun yr ymgynghoriad yn debyg iawn i'r rhwydwaith presennol – os nad yn union yr un fath ag ef – yn y rhan fwyaf o Ogledd Cymru. Er cydnabod bod y rhwydwaith a'r patrymau gwasanaeth arfaethedig yn adlewyrchu'r cyllid sydd ar gael, mae angen rheoli disgwyliadau'r cyhoedd o ran graddau'r gwelliannau sy'n bosibl drwy drefniadau masnachfaint ar hyn o bryd.

Hoffem weld cynigion gan TrC a Llywodraeth Cymru a fydd yn gwella'r rhwydwaith a'r ddarpariaeth gwasanaethau ledled Gogledd Cymru yn y dyfodol. Yn ogystal â hyn, hoffem gael sicrwydd y bydd cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gael yn y dyfodol i gefnogi rhwydwaith gwell ar ôl i'r trefniadau masnachfaint fod ar waith.

Ynglŷn ag ariannu, dylid nodi gan fod rhai teithiau ar hyn o bryd yn cael eu gweithredu yn fasnachol, nid ydynt angen unrhyw arian ar y funud. Bydd hyn yn newid pan fo'r llwybrau hynny yn cael eu cynnwys mewn pecynnau masnachfaint, ac mae angen i Lywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru gydnabod na fydd hi'n bosibl cyflawni rhwydwaith bysiau tebyg at ei debyg yn y dyfodol o fewn y drefn ariannu sy'n bodoli ar hyn o bryd. Er mwyn ymdrin â hyn, dylai Llywodraeth Cymru geisio ymrwymo i ariannu pellach ac aml-flwyddyn fel bod trafniadaeth gyhoeddus yn gallu symud ymlaen.

Y Rhwydwaith Arfaethedig a Phatrymau Gwasanaeth

Bydd rhai o'r newidiadau gwasanaeth arfaethedig yn golygu newid i deithiau sydd ar hyn o bryd yn rhai uniongyrchol. Ble fo'r newidiadau hyn yn achosi anhwylostod, e.e. cost, oedi neu ansicrwydd i'r teithiwr, dylai'r anhwylostod hwn gael ei leihau. Er enghraifft, mae gwasanaethau F19 ac F18 ar hyn o bryd yn cysylltu pentrefi yn Sir y Fflint gyda'r Rhyl. O dan y cynigion newydd, byddai angen newid ym Mhrestatyn i wasanaeth sydd ar hyn o bryd yn cael ei redeg gan weithredwr gwahanol. Ni

ddylai fod cosb ariannol i deithwyr sydd angen gwneud y newid hwn. Yn amlwg gellid mynd i'r afael â hyn drwy'r cynigion tocynnau integredig sy'n cael eu datblygu gan Drafnidiaeth Cymru.

Ar Ynys Môn, mae'r Cyngor wedi cynnal cynllun peilot gan ddefnyddio Cronfa Trafnidiaeth Leol sy'n wasanaeth trafndiaeth ymateb i'r galw yng Nghymru, a weithredir mewn cymunedau bychain ger yr A5. Digwyddodd hyn ar ôl i'r gweithredwr masnachol roi'r gorau i wasanaethu'r cymunedau hyn ar sail fasnachol gan nodi oedi, niferoedd isel o deithwyr a thrafferthion gyda cheir wedi parcio neu ffyrdd cul fel rhesymau. Mae'n siomedig nad yw'r rhwydwaith masnachfaint arfaethedig yn gwasanaethu'r cymunedau hyn.

Mae gwasanaethau ar draws y ffin i Loegr yn rhan hanfodol o'r rhwydwaith trafndiaeth yng ngogledd Cymru. Mae hyn yn adlewyrchu'r nifer fawr o bobl sydd yn symud ar draws y ffin i weithio, amser handden, gweld teulu a mynediad at wasanaethau. Ni ddylai gwasanaethau bws ar draws y ffin fod o dan unrhyw anfantais pan fyddant yn croesi'r ffin i Gymru oherwydd unrhyw newid anfwriadol i'r rhan o'r siwrnai yn Lloegr.

Mae'n ymddangos fod yna rai gwallau neu anghysondebau yn y cynnyrch a gyhoeddwyd. Er enghraifft:

- Ar y map rhyngweithiol ym Mhrestatyn, mae'r llwybrau ar gyfer gwasanaethau 11 a 35/36 yn adlewyrchu'r llwybrau blaenorol cyn i'r rhain gael eu newid. Os fydd y rhain yn cael eu newid yn ôl wedi masnachfreintio, nid yw hyn yn cael ei ddangos yn y rhan newidiadau arfaethedig.
- Mae hyn hefyd yn gywir ar gyfer y gwasanaeth 11F, mae'r map yn awgrymu amllder gyda 1 funud rhyngddynt.
- Mae yna ardal Fflecsi fechan iawn yn cael ei dangos yn Saltney Ferry ar y map.

Byddem hefyd yn annog adolygiadau o'r ardaloedd fflecsi i ganiatáu symudiadau dros y ffin i rai gwasanaethau lle nad yw cymunedau o angenrheidrwydd yn edrych ar drefi yn ardal eu hawdurdod lleol, ond ar drefi mewn ardal awdurdod cyfagos. Dylai masnachfreintio a gweithio'n rhanbarthol drwy'r CBC ddarparu cyfle i sicrhau bod gwasanaethau yn adlewyrchu'r teithiau mae pobl eisiau eu gwneud ac nad ydynt yn cael eu cyfyngu gan derfynau gwleidyddol.

Unwaith eto, diolch i chi am y cyfle i ymateb i'r cynigion hyn ac am ymgysylltu yn rhanbarthol gyda ni. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am gynnwys yr ymateb hwn, neu am drafodaeth bellach, mae croeso ichi gysylltu ag Adam Graham, Uwch Swyddog Trafnidiaeth Uchelgais Gogledd Cymru yn AdamGraham@uchelgaigogledd.cymru

Yn gywir,

Y Cyngorydd David A Bithell
Cadeirydd yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol

**ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL
2 TACHWEDD 2026**

TEITL: Archwiliad Cynllunio Trafnidiaeth Ranbarthol

AWDUR: Adam Graham, Uwch Swyddog Trafnidiaeth

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Rhoi gwybod i'r Aelodau am yr adroddiad terfynol a dderbyniwyd gan Archwilio Cymru ar ôl eu harchwiliad o Gynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol yng ngogledd Cymru a gynhaliwyd ym mis Mai a Mehefin 2026.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 2.1. Nid ydym yn ceisio unrhyw benderfyniad. Gofynnir i'r aelodau nodi'r adroddiad.

3. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 3.1. Cysylltodd Archwilio Cymru â Phrif Weithredwr Uchelgais Gogledd Cymru ynglŷn â'r cyfle i gynnal archwiliad o'r broses gynllunio trafndiaeth ranbarthol yng ngogledd Cymru, a fyddai'n ystyried datblygiad a chymeradwyaeth y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTP), blaenoriaethu a chytuno ar raglen y Gronfa Drafndiaeth Ranbarthol (RTF), a'r llywodraethu sy'n cefnogi'r prosesau hynny. Cynhaliwyd yr archwiliad ym misoedd Mai a Mehefin 2026.
- 3.2. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod yr archwiliad wedi cael ei gynnal yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor ar 3 Gorffennaf 2026, ond nid oedd yr adroddiad terfynol a'r argymhellion wedi'u derbyn ar y pryd. Derbyniwyd yr adroddiad terfynol gan Archwilio Cymru ym mis Awst 2026.

4. AMCAN A SGÔP YR ARCHWILIAD

- 4.1. Amcan yr archwiliad oedd asesu a yw Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd wedi rhoi trefniadau effeithiol ar waith i gyflawni ei ddyletswyddau cynllunio trafndiaeth ranbarthol statudol a darparu gwerth am arian. Roedd hyn yn canolbwyntio ar p'un a yw ei drefniadau cynllunio, adnoddau a rheoli perfformiad yn gweithredu fel y bwriadwyd.
- 4.2. Ni wnaeth yr archwiliad archwilio prosiectau trafndiaeth unigol, darpariaeth gwasanaethau gweithredol, gwaith archwilio ariannol manwl, na swyddogaethau eraill y Cyd-bwyllgor Corfforedig nad ydynt yn gysylltiedig.
- 4.3. Cynhaliwyd yr archwiliad dan adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 15, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

5. CANFYDDIADAU

- 5.1. Crynodeb o ganfyddiadau Archwilio Cymru sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad yw "Mae'r CBC yn parhau i ddatblygu ei drefniadau cynllunio trafndiaeth, gan gymryd dull pragmatig o reoli cyfyngiadau cyllid ac adnoddau. Er bod cynnydd yn cael ei wneud, mae prosiectau cyfredol yn canolbwyntio ar flaenoriaethau awdurdodau lleol unigol ac mae adrodd ar berfformiad yn canolbwyntio ar weithgareddau. Mae canolbwyntio ar ganlyniadau rhanbarthol wrth wneud penderfyniadau yn helpu i gyflawni gwerth am arian hirdymor."
- 5.2. Mae canfyddiadau manwl yr archwiliad i'w gweld yn yr adroddiad sydd wedi'i gynnwys fel Atodiad 1.

6. ARGYMHELLION ARCHWILIO CYMRU

- 6.1. Mae Archwilio Cymru yn cydnabod bod y CBC yn sefydliad newydd sydd mewn cyfnod pontio o ran trafndiaeth ranbarthol, gan symud o gynllunio i weithredu.
- 6.2. Nod yr argymhellion y mae Archwilio Cymru wedi'u gwneud yw helpu'r CBC i gryfhau ei drefniadau i gefnogi cyflawni ei gynllun trafndiaeth ranbarthol. Yr argymhellion yw:
- A1: Er mwyn sicrhau goruchwyliaeth effeithiol o gyflawni a pherfformiad, dylai'r CBC:
 - Gyflwyno set glir o ddangosyddion perfformiad allweddol, mesurau deilliannau a metrigau gwireddu buddion sy'n cyd-fynd ag amcanion strategol
 - Gweithredu'r fframwaith monitro a gwerthuso yn llawn, gan gynnwys defnyddio offer presennol i olrhain buddion a dangos gwerth am arian
 - Defnyddio data perfformiad yn rhagweithiol ac yn gyson i herio cyflawni, gyrru gwelliant, a llywio penderfyniadau strategol
 - Ymgorffori gweithdrefnau adolygu perfformiad rheolaidd gyda llwybrau uwch-gyfeirio clir ar gyfer tanberfformiad.
 - A2: Er mwyn cryfhau rheoli a goruchwyllo risg, dylai'r CBC:
 - Ddatblygu a chynnal cofrestr risg trafndiaeth ffurfiol sy'n dal yr holl risgiau allweddol ac yn aseinio perchnogaeth ac atebolrwydd ar gyfer rheoli a monitro
 - Adnabod rheolaethau priodol a chymau lliniaru
 - Sefydlu gweithdrefnau uwch-gyfeirio risg diffiniedig, gan gynnwys trothwyon a llwybrau adrodd
 - Sicrhau bod gwybodaeth risg yn cael ei defnyddio i gefnogi monitro perfformiad cyson a llywio penderfyniadau.

7. YMATEB I'R ADRODDIAD

- 7.1. Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi croesawu'r adroddiad, sy'n nodi ansawdd y Cynllun Trafndiaeth Ranbarthol a'r cydweithio ar draws y rhanbarth, gan gydnabod cyfnod pontio cyllid trafndiaeth ranbarthol a phrosesau mewnol y sefydliad sy'n dod i'r amlwg.
- 7.2. Mae'r adroddiad yn gwneud rhai argymhellion defnyddiol ynghylch rheoli perfformiad a rheoli risg, sydd bellach yn cael eu gweithredu. Mae dau Swyddog Trafndiaeth wedi cael eu recriwtio, a rhan o'u rôl fydd cefnogi'r broses hon. Bydd y gwaith rheoli perfformiad a risg hwnnw'n cael ei ddefnyddio i lywio diweddariadau i'r Is-bwyllgor yn y dyfodol.

8. GOBLYGIADAU ARIANNOL

8.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol sy'n deillio o'r adroddiad hwn.

9. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

9.1. Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol uniongyrchol sy'n deillio o'r adroddiad hwn.

ATODIADAU:

Atodiad 1 – Adroddiad Archwilio Cymru ar Gynllunio Trafnidiaeth Ranbarthol yng Ngogledd Cymru

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Bydd yr adroddiadau arfaethedig ar gynnydd ar berfformiad a rheoli risg yn cefnogi goruchwyliaeth yr Is-bwyllgor. Dylai diweddariadau yn y dyfodol nodi cynnydd yn erbyn yr argymhellion archwilio, camau gweithredu sy'n weddill ac unrhyw faterion sydd angen penderfyniad"

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Rwyf yn croesawu'r adroddiad. Bydd Cyllid yn cydweithio gyda'r swyddogion perthnasol fel bo'r angen i weithredu argymhellion yr adroddiad."

Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol

Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd

Awst 2026

Diben y ddogfen hon

Drafft yw'r ddogfen hon a gyflenwir yn gyfrinachol at yr unig ddiben o roi'r cyfle i bartïon perthnasol gynnig sylwadau.

Trafod y ddogfen cyn ei chyhoeddi

Mae'r ddogfen hon a'r hawlfraint ynddi yn eiddo i Archwilydd Cyffredinol Cymru ac erys felly. Mae'n cynnwys gwybodaeth a gafwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru o dan bwerau statudol i gyflawni swyddogaethau statudol yn unig ac fe'i paratowyd fel sail i ddogfen swyddogol y gellir ei chyflwyno neu ei chyhoeddi maes o law.

Gall hefyd gynnwys gwybodaeth y gallai ei datgelu heb awdurdod fod yn drosedd o dan adran 54 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Ac eithrio fel y caniateir yn benodol o dan y gyfraith, ni ellir atgynhyrchu'r ddogfen nac unrhyw ran o'i chynnwys, na'i storio mewn system adalw na'i throsglwyddo mewn unrhyw ffurf na thrwy unrhyw fodd, na'i datgelu i unrhyw un ac eithrio'r sawl a'i derbyniodd yn wreiddiol heb ganiatâd ysgrifenedig Swyddfa Archwilio Cymru ymlaen llaw. Mae'n rhaid ei diogelu bob amser i'w hatal rhag cael ei chyhoeddi neu i atal defnydd amhriodol arall o'i chynnwys. Gallai ei defnyddio neu'i datgelu heb awdurdod arwain at achos cyfreithiol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Cewch aildddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei aildddefnyddio, mae'n rhaid i'ch aildddefnydd fod yn gywir ac mae'n rhaid nad yw mewn cyd-destun camarweiniol. Mae'n rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'n rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn aildddefnyddio.

Os byddwch angen unrhyw gymorth gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os byddwch angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith amgen:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb i chi yn yr iaith yr ydych yn ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhwngwladol a gyhoeddir gan Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio/International Organization of Supreme Audit Institutions (INTOSAI).

Cynnwys

Ciplun archwiliad	4
Ein canfyddiadau	6
Argymhellion	14
Atodiadau	16
1 Ynglŷn â'n gwaith	17
Amdanom ni	19

Ciplun archwiliad

Yr hyn y gwnaethom edrych arno

- 1 Fe wnaethom adolygu pa un a oes gan Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd drefniadau ar waith i gefnogi ei gyfrifoldebau cynllunio trafndiaeth rhanbarthol. Roedd hyn yn cynnwys sut mae'n gwneud penderfyniadau, yn goruchwyllo'r defnydd o adnoddau, yn blaenoriaethu gwariant i sicrhau gwerth am arian, ac yn monitro perfformiad.

Pam mae hyn yn bwysig

- 2 Mae gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig gyfrifoldeb o dan Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021 i baratoi cynllun trafndiaeth rhanbarthol i annog "trafnidiaeth ddiogel, integredig, effeithlon ac economaidd yn ei ardal".
- 3 Mae cynllun trafndiaeth rhanbarthol yn allweddol i ddarparu'r manteision canlynol:
 - **Economaidd:** yn darparu cysylltedd rhwng canolfannau allweddol, porthladdoedd, trefi, a dinasoedd gan roi hwb i symudedd, cynhyrchiant, a thwf rhanbarthol.
 - **Cymdeithasol:** yn gwella mynediad at swyddi, addysg, gofal iechyd, a gwasanaethau, yn enwedig i gymunedau gweledig neu ddifreintiedig gan helpu i leihau anghydraddoldebau.
 - **Amgylcheddol:** yn hyrwyddo teithio cynaliadwy (trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded, a beicio), i leihau tagfeydd, allyriadau, a llygredd.

Yr hyn a ganfuwyd gennym

- 4 Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn parhau i ddatblygu ei drefniadau cynllunio trafnidiaeth, gan fabwysiadu dull pragmatig o reoli cyfyngiadau o ran cyllid ac adnoddau. Er bod cynnydd yn cael ei wneud, mae prosiectau presennol yn canolbwyntio ar flaenoriaethau awdurdodau lleol unigol ac mae adrodd ar berfformiad yn canolbwyntio ar weithgareddau. Mae canolbwyntio ar ganlyniadau rhanbarthol wrth wneud penderfyniadau yn helpu i sicrhau gwerth am arian hirdymor.

Yr hyn a argymhellir gennym

- 5 Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Mae'r argymhellion yn ymwneud â:
 - Gwneud gwaith rheoli perfformiad yn gryfach i gefnogi trosolwg, gwneud penderfyniadau ac asesiadau gwerth am arian; a
 - Gwella gwaith rheoli risg drwy nodi risgiau, rheolaethau effeithiol a gweithdrefnau uwchgyfeirio eglur.

Ein canfyddiadau

- 6 Mae ein hadolygiad wedi nodi themâu cyson o ddatblygiad camau cynnar a threfniadau sy'n esblygu wrth i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig bontio o gynllunio i weithredu.

Amcanion Strategol

Mae Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn darparu amcanion strategol eglur a fframwaith llywodraethu, ond nid yw'r rhain yn gweithredu fel y bwriadwyd eto.

- 7 Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn darparu fframwaith strategol eglur sy'n cyd-fynd â Llwybr Newydd¹, wedi'i atodi gan strwythurau llywodraethu diffiniedig a gweithio partneriaeth cryf. Mae trefniadau presennol yn bragmatig ac wedi'u harwain gan berthnasoedd, â phrosesau llywodraethu yn cael eu haddasu i gefnogi darpariaeth.
- 8 Er bod y trefniadau hyn yn gweithio, fe'u dylanwadir gan ddau ffactor trosiannol sy'n effeithio ar eglurder ac atebolrwydd. Mae'r rhain yn cynnwys:
- cyllid am flwyddyn a ddyrennir gan awdurdodau lleol;
 - blaenoriaethu cynlluniau a ysgogir yn lleol yn hytrach na rhaglenni rhanbarthol.

¹ Strategaeth Drafnidiaeth Genedlaethol Cymru 2021

- 9 Mae gweithio ar y cyd cryf wedi galluogi'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i gynnal darpariaeth a momentwm yn ystod y flwyddyn gyntaf. Er bod rhai ymyriadau rhanbarthol allweddol fel rhaglenni rheilffyrdd a chefnffyrdd y tu allan i reolaeth uniongyrchol y Cyd-bwyllgor Corfforedig, mae darpariaeth ar draws y rhaglen ehangach yn ddibynnol ar gydgysylltiad anffurfiol i raddau helaeth. Heb fframwaith blaenoriaethu rhanbarthol wedi'i ddatblygu'n llawn, ceir perygl y gallai blaenoriaethau lleol a phenderfyniadau darparu allanol wanhau pwyslais rhanbarthol strategol y Cynllun.
- 10 Wrth i gyllid symud y tu hwnt i'r flwyddyn gyntaf ac i gynlluniau mwy a mwy cymhleth gael eu cyflwyno, mae trefniadau presennol yn creu perygl ar gyfer y dyfodol y gallai blaenoriaethau lleol a rhanbarthol sy'n cystadlu ddod yn fwy anodd eu cydbwyso. Heb fframwaith blaenoriaethu mwy cadarn ac sy'n cael ei weithredu'n gyson, gallai'r Cyd-bwyllgor Corfforedig:
- leihau tryloywder yn y broses gwneud penderfyniadau;
 - cael trafferth yn dangos gwerth rhanbarthol a chysondeb strategol;
 - oedi cynlluniau rhanbarthol effaith uwch neu eu darparu yn aneffeithlon.

Sgiliau a Chapasiti

- 11 Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn dangos dealltwriaeth eglur sy'n esblygu o'r sgiliau, y capasiti a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni ei swyddogaethau cynllunio trafndiaeth rhanbarthol.
- 12 Nododd fylchau o ran rheoli rhaglenni, arbenigedd technegol a'r gallu i ddarparu yn ystod datblygiad cynnar y Cynllun, ac ymatebodd yn bragmatig drwy:
- sicrhau cymorth allanol arbenigol;
 - cryfhau arweinyddiaeth fewnol drwy secondiadau;
 - sbarduno capasiti gan bartneriaid awdurdod lleol.
- 13 Mae aelodau wedi cynyddu eu dealltwriaeth o gyfrifoldebau trafndiaeth rhanbarthol a darparwyd canllawiau pellach mewn cyfarfodydd Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio awdurdodau lleol.

- 14 Mae'r camau hyn wedi cefnogi cynnydd cychwynnol a gwella cydgysylltiad. Fodd bynnag, mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn dal i ddatblygu model darparu adnoddau hirdymor cynaliadwy. Mae ansicrwydd o ran cyllid a heriau recriwtio yn parhau i gyfyngu ar y cyflymder y gall ddatblygu gallu yn llawn.

Llywodraethu a Throsolwg

- 15 Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wrthi'n datblygu trefniadau trosolwg a llywodraethu mwy effeithiol ac aeddfed. Dim ond yn ddiweddar y mae Is-bwyllgorau allweddol fel y pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio a Thrafnidiaeth Strategol wedi cael eu sefydlu ac nid ydynt yn cynnal cyfarfodydd yn aml.
- 16 Mae swyddogaethau a chyfrifoldebau ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig, is-bwyllgorau, awdurdodau lleol a phartneriaid wedi'u cyflwyno'n eglur ar draws y Cyfansoddiad, y cylch gorchwyl a phapurau pwyllgor.
- 17 Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn parhau i fireinio ei drefniadau llywodraethu trwy ddiweddarau cylch gorchwyl a gofynion cworwm i wella effeithiolrwydd a galluogi penderfyniadau i gael eu gwneud. Fe wnaeth yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddiwygio ei gylch gorchwyl i gael gwared ar yr angen am gynrychiolaeth aelod etholedig o bob cyngor cyfansoddol i sicrhau cworwm. Er bod y newid hwn yn sicrhau y gall penderfyniadau gael eu gwneud, mae'n creu'r perygl o leihau'r lefel o drosolwg os nad oes presenoldeb da mewn cyfarfodydd.
- 18 Mae'r Cyfansoddiad a'r cylch gorchwyl yn neilltuo cyfrifoldebau eglur am wneud penderfyniadau a throsolwg o berfformiad y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig a'i is-bwyllgorau. Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig Board yn pennu cyfeiriad strategol ac yn gwneud penderfyniadau, tra bod yr Is-bwyllgor yn cydgysylltu darpariaeth, yn craffu ar berfformiad, ac yn adrodd ar gynnydd. Mae hyn yn gwahanu'r broses gwneud penderfyniadau a throsolwg yn eglur.

19 Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn derbyn diweddariadau ar gynnydd ddwywaith y flwyddyn gan yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol. Fodd bynnag, ceir bylchau yn yr adborth i lawr gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig Board a rhannu gwybodaeth prin rhwng is-bwyllgorau sy'n cyfyngu:

- cysondeb ac eglurder ar flaenoriaethau;
- proses gwneud penderfyniadau ystwyth;
- trosolwg ac atebolrwydd;
- cydweithredu a rhannu gwybodaeth

Gwneud Penderfyniadau

20 Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn wynebu heriau o ran sicrhau cydbwysedd effeithiol rhwng ystwythder a thryloywder yn ei broses gwneud penderfyniadau. Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn dibynnu ar drafodaethau anffurfiol i gyflymu'r broses gwneud penderfyniadau, ond mae hyn yn lleihau tryloywder. Ar yr un pryd, mae absenoldeb awdurdod wedi'i ddirprwyo yn gwella tryloywder ond yn arafu'r broses gwneud penderfyniadau. Wrth i raglenni dyfu, bydd gweithredu fframwaith gwneud penderfyniadau eglur yn helpu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i gydbwyso'r blaenoriaethau hyn sy'n cystadlu yn fwy effeithiol.

Cyllid ac Adnoddau

Mae adnoddau byrdymor yn galluogi darpariaeth nawr, ond nid yw hyn yn gynaliadwy ac mae'n gwanhau cynllunio hirdymor a gwerth am arian

- 21 Mae adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio'n bragmatig ac yn effeithlon yn y byrdymor. Fodd bynnag, mae'r model ariannu tymor hwy, blaenoriaethu strategol, a threfniadau sicrwydd ar gyfer cynllunio trafndiaeth rhanbarthol yn dal i fod wedi'u datblygu'n annigonol.
- 22 Ceir symudiad eglur tuag at reolaeth a dyraniad strategol mwy rhanbarthol, ond yn ymarferol:
 - mae awdurdodau lleol yn cadw cyfrifoldeb am ddyrannu cyllid yn y flwyddyn gyntaf a darpariaeth cynlluniau;
 - mae gallu mewnol y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn dal i gael ei ddatblygu;
 - nid yw'r model ariannu yn gwbl sefydlog eto;
 - mae'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer sicrhau gwerth am arian, canlyniadau, a buddion yn gyfyngedig.
- 23 O ganlyniad, mae cynllunio trafndiaeth rhanbarthol yn wynebu heriau capasiti, fforddiadwyedd, a gwydnwch, a allai gyfyngu darpariaeth effeithiol a chynaliadwy.
- 24 Mae cyfleoedd yn bodoli i gryfhau asesiadau gwerth am arian yn y broses gwneud penderfyniadau, tra'n cydnabod amcanion gwerth cymdeithasol ehangach. Mae'r Adroddiad Monitro a gwerthuso yn cyfeirio at y Fframwaith Gwerth am Arian; fodd bynnag, mae asesiadau yn ôl-weithredol i raddau helaeth ac wedi'u hysgogi gan ofynion ariannu Llywodraeth Cymru. Mae'r dull hwn:
 - yn cyfyngu'r gallu i asesu a chymharu cynlluniau cyn eu cymeradwyo;
 - yn lleihau sicrwydd bod penderfyniadau dyrannu cyllid yn gwella gwerth;
 - yn gwanhau gwaith rheoli perfformiad cyson ar draws rhaglenni.

Rheoli Perfformiad

Mae angen cryfhau gweithdrefnau monitro a gwerthuso i ddangos canlyniadau.

- 25 Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi sefydlu cynllun cyflawni sy'n bodloni canllawiau statudol ond sydd dal ar gam cynnar o ran aeddfedrwydd. Nid yw'r cynllun cyflawni wedi ei ymwreiddio'n llawn eto fel fframwaith a arweinir yn rhanbarthol. Mae blaenoriaethau cynnar yn adlewyrchu cynlluniau lleol presennol i raddau helaeth, yn hytrach na dull rhanbarthol wedi'i ddatblygu'n llawn.
- 26 Mae'r cynllun yn cael ei weithredu trwy fodel cyllid pontio lle mae awdurdodau lleol yn cadw cyfrifoldeb am ddarparu a dyrannu cyllid. Mae hyn yn cyfyngu gallu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i arfer rheolaeth a throsolwg llawn ac i ddangos bod prosiectau unigol yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu buddion rhanbarthol.
- 27 Mae adrodd ar berfformiad yn dal i fod heb ei ddatblygu'n ddigonol ac nid yw'n darparu sail gref eto ar gyfer rheoli perfformiad na gwneud penderfyniadau. Mae adrodd yn ddisgrifiadol ac wedi'i ysgogi gan broses i raddau helaeth, â defnydd cyfyngedig o ddangosyddion perfformiad allweddol neu fesurau canlyniadau i ddangos bod y cynllun yn sicrhau buddion.
- 28 Mae adroddiadau ar gynnydd gan yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol yn cynnwys:
 - gweithgarwch ymgynghorwyr;
 - niferoedd cynllun,
 - data ariannol;
 - dyraniadau cyllid, a cherrig milltir.

- 29 I raddau helaeth, mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn defnyddio gwybodaeth fonitro i fodloni gofynion adrodd Llywodraeth Cymru yn hytrach nag i herio perfformiad. Mae'n defnyddio dulliau anghyson o gasglu ac adolygu data ac nid yw'n defnyddio gwybodaeth am berfformiad eto i hysbysu penderfyniadau neu ysgogi gwelliant.
- 30 Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn datblygu fframwaith monitro a gwerthuso, ond nid yw'n ei ddefnyddio. Nid yw Cynllun Monitro a Gwerthuso'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn nodi'r gwerthoedd cychwynnol y mae'n mesur cynnydd yn eu herbyn yn gyson. Mae hyn yn ei gwneud yn anoddach i ddangos effaith ac yn arwain at werthusiadau mwy disgrifiadol na dadansoddol. Er ei fod wedi derbyn dulliau a chanllawiau i olrhain buddion, nid yw wedi eu defnyddio yn ystod darpariaeth gychwynnol. O ganlyniad, mae mewn perygl o fethu â gallu dangos cynnydd na gwerth am arian yn eglur na defnyddio'r wybodaeth hon i gefnogi gwelliant.

Rheoli Risg

- 31 Mae trefniadau rheoli risg yn dal i fod yn anffurfiol ac i esblygu. Nid oes unrhyw gofrestr risg trafnidiaeth ffurfiol sy'n rhoi dibyniaeth ar drafodaeth a chrebwyll swyddogion. Er bod risgiau ariannu, darparu, a chapasiti wedi cael eu nodi, nid ydynt wedi'u cefnogi gan reolaethau, mesurau lliniaru na gweithdrefnau uwchgyfeirio eglur eto. Mae'r gwendidau hyn o ran trosolwg a chysondeb yn lleihau hyder o ran gwaith monitro perfformiad a gwneud penderfyniadau cytbwys.

Trosolwg a Chraffu ar Berfformiad

- 32 Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi sefydlu trefniadau llywodraethu ffurfiol, gan gynnwys Bwrdd y ac is-bwyllgorau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i ddarparu trosolwg a chraffu ar berfformiad.

- 33 O gofio cam cynnar datblygiad y rhaglen, mae'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol wedi defnyddio ei dri adroddiad cynnydd i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i adrodd yn bennaf ar ddiweddariadau o ran gweithgareddau a chydymffurfiad yn hytrach na chanlyniadau. Mae adroddiadau wedi canolbwyntio ar yr hyn a wnaed, yr hyn a wariwyd a detholiad cynlluniau. Wrth i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol fwrw ymlaen o ran darpariaeth, dylai adroddiadau roi mwy o bwyslais ar ganlyniadau ac effaith fod y gall y Cyd-bwyllgor Corfforedig ddeall pa un a yw'n cyflawni ei amcanion a dangos y buddion y mae'n eu darparu.
- 34 Mae llai o adrodd yn cynnig amlygrwydd cyfyngedig o berfformiad yn erbyn nodau strategol rhanbarthol. Mae'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol wedi lleihau adroddiadau ar gynnydd i Fwrdd y Cyd-bwyllgor Corfforedig o sail dri misol (fel y nodir yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a dogfennau atodol) i sail chwe misol i leddfu pwysau o ran capasiti adrodd. Mae'r penderfyniad hwn yn cyfyngu gallu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i reoli risgiau a chraffu ar berfformiad yn brydlon. Ni ystyriwyd y risg hon yn y penderfyniad i ddiwygio cylch gorchwyl yr is-bwyllgor i alluogi llai o adrodd.

Argymhellion

- 35 Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig mewn cyfnod pontio o gynllunio i weithredu. Mae ein hadolygiad wedi nodi nifer o feysydd i'w gwella. Nod yr argymhellion yw helpu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i gryfhau ei drefniadau i gefnogi darpariaeth ei gynllun trafndiaeth rhanbarthol.

- A1** Er mwyn sicrhau trosolwg effeithiol o ddarpariaeth a pherfformiad, dylai'r Cyd-bwyllgor Corfforedig:
- 1.1** Gyflwyno cyfres eglur o ddangosyddion perfformiad, mesurau canlyniadau a metrigau gwireddu buddion sy'n cyd-fynd ag amcanion strategol (**paragraff 27**).
 - 1.2** Gweithredu'r fframwaith monitro a gwerthuso yn llawn, gan gynnwys defnydd o ddulliau presennol i olrhain buddion a dangos gwerth am arian (**paragraffau 24 a 30**).
 - 1.3** Defnyddio data perfformiad yn rhagweithiol ac yn gyson i herio darpariaeth, i ysgogi gwelliant, ac i hysbysu penderfyniadau strategol. (**paragraff 29**).
 - 1.4** Ymwreiddio gweithdrefnau adolygu perfformiad rheolaidd â llwybrau uwchgyfeirio eglur ar gyfer tanberfformiad. (**paragraffau 33 a 34**).

- A2** Er mwyn cryfhau gwaith rheoli risg a throsolwg o risg, dylai'r Cydbwyllgor Corfforedig:
- 2.1** Ddatblygu a chadw cofrestr risgiau trafnidiaeth ffurfiol sy'n nodi'r holl risgiau allweddol ac yn neilltuo cyfrifoldeb ac atebolrwydd am reoli a monitro (**paragraff 31**).
- 2.2** Nodi rheolaethau a chamau lliniaru priodol (**paragraff 31**).
- 2.3** Sefydlu gweithdrefnau uwchgyfeirio risg diffiniedig, gan gynnwys trothwyon a llwybrau adrodd (**paragraff 31**).
- 2.4** Sicrhau bod gwybodaeth risg yn cael ei defnyddio i gefnogi gwaith monitro perfformiad cyson ac i hysbysu'r broses gwneud penderfyniadau (**paragraff 34**)

Atodiadau

1 Ynglŷn â'n gwaith

Cwmpas yr archwiliad

Fe wnaethom edrych ar ba un a oes gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig drefniadau ar waith i gefnogi ei ddyletswyddau cynllunio trafndiaeth rhanbarthol a sicrhau gwerth am arian.

Ni wnaethom asesu prosiectau trafndiaeth unigol na darpariaeth gwasanaethau gweithredol. Ni wnaethom gyflawni gwaith archwilio ariannol manwl yn ystod yr adolygiad. Cyflawnwyd ein gwaith maes yn ystod mis Mehefin 2026.

Cwestiynau a meini prawf archwilio

Cwestiynau

Rhoddodd ein harchwiliad ystyriaeth i'r cwestiynau canlynol:

- A yw'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi esbonio ei ddyletswyddau cyfreithiol, ei nodau, a'i brif flaenoriaethau ar gyfer cynllunio trafndiaeth rhanbarthol yn eglur?
- A yw'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi rhoi adnoddau digonol ar waith i gefnogi gweithgarwch trafndiaeth rhanbarthol?
- A yw'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi datblygu prosesau priodol i reoli darpariaeth, i olrhain cynnydd, ac i werthuso pa un a yw ei amcanion yn cael eu cyflawni?

Meini prawf

Fe wnaethom ddefnyddio'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, a Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021 i hysbysu ein meini prawf archwilio.

Dulliau

Fe wnaethom adolygu dogfennau, cyfweld â swyddogion ac aelodau, a dadansoddi data.

Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â rhai cynghorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gynorthwyo, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân â'r swyddogaethau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

v1.0/P2559



**ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL
2 Tachwedd 2026**

TEITL: Datganiad Sefyllfa - Gwelliannau Trafnidiaeth Llanbedr

AWDUR: Adam Graham, Uwch Swyddog Trafnidiaeth

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Nodi Datganiad Sefyllfa Llanbedr a ddatblygwyd gan Uchelgais Gogledd Cymru a'i rannu â Llywodraeth Cymru.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 2.1. Nid ydym yn ceisio unrhyw benderfyniad. Gofynnir i'r aelodau nodi'r adroddiad.

3. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 3.1. Mae cynllun Gwella Trafnidiaeth Llanbedr - sydd weithiau'n cael ei adnabod fel Ffordd Liniaru Llanbedr neu debyg - wedi cael cefnogaeth yn lleol ers cryn amser. Ar hyn o bryd, nid oes ffynhonnell o arian wedi'i hadnabod ar gyfer cyflwyno'r cynllun.
- 3.2. Mae Llywodraeth Cymru, ar gais y Dirprwy Weinidog Trafnidiaeth, wedi sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen gyda'r nod o adnabod datrysiad posib addas ar gyfer ariannu'r gwelliannau.
- 3.3. Mae Uchelgais Gogledd Cymru, gan weithio gyda Chyngor Gwynedd, wedi sefydlu datganiad sefyllfa sydd wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i hysbysu gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen.

4. NODYN BRIFFIO DATGANIAD SEFYLLFA

- 4.1. Mae'r nodyn briffio sy'n nodi sefyllfa gyfredol Uchelgais Gogledd Cymru wedi'i gynnwys fel Atodiad 1.
- 4.2. Mae'r nodyn yn ystyried:
- hanes y cynllun gwella trafndiaeth a'i waith datblygu
 - arwyddocâd y maes awyr cyfagos a'r achos strategol dros fuddsoddi
 - barn y cyhoedd
 - potiau cyllid rhanbarthol, yn cynnwys y Gronfa Trafnidiaeth Rhanbarthol, y Gronfa Twf Lleol a'r Cynllun Twf.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 5.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol sy'n deillio o'r adroddiad hwn.

6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol na llywodraethu yn deillio o'r adroddiad hwn.

ATODIADAU:

Atodiad 1 - Nodyn Briffio'r Datganiad Sefyllfa

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Rwy'n nodi'r adroddiad a'r datganiad sefyllfa a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ac nad oes unrhyw benderfyniad yn cael ei geisio gan yr Is-bwyllgor. Nid oes gennyf unrhyw sylwadau cyfreithiol na llywodraethu ychwanegol."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Dim sylwadau i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol."



**Cyd-Bwyllgor Corfforedig
Gogledd Cymru
North Wales
Corporate Joint Committee**



NODYN BRIFFIO: GWELLIANNAU TRAFNIDIAETH LLANBEDR

1. PWRPAS Y NODYN HWN

Pwrpas y nodyn hwn yw nodi sefyllfa Uchelgais Gogledd Cymru o ran cynllun Gwelliannau Trafnidiaeth Llanbedr yng Ngwynedd. Mae'n adlewyrchu'r sefyllfa gyfredol ym mis Medi 2026.

Y bwriad yw hysbysu gwaith Grŵp Tasg a Gorffen Llywodraeth Cymru sydd wedi'i sefydlu i nodi p'un a oes ffynhonnell gyllid bosib, neu gymysgedd o ffynonellau cyllid, sy'n addas i fwrw ymlaen gyda'r cynllun.

2. HANES LLANBEDR A'R CYNLLUN

Mae Llanbedr yn bentref bychan o oddeutu 650 o bobl, ar yr A496 rhwng Abermaw a Harlech. Mae'r pentref wedi wynebu problemau traffig sylweddol am ddegawdau.

Ymysg y materion allweddol mae:

- Pont garreg gul restredig dros afon Artro, sy'n creu tagfeydd ar yr A496 drwy'r pentref.
- Parcio ar y ffordd yn lleihau lled y ffordd a chreu gwrthdaro rhwng cerddwyr a cherbydau.
- Traffig twristiaeth trwm tymhorol yn gallu achosi oedi sylweddol i draffig ar yr A496.
- Traffig ar hyd Ffordd Mochras i wersyll Mochras (Shell Island) yn cynyddu o rhwng 150 cerbyd y dydd ym mis Tachwedd i 2,000 y dydd yn ystod amseroedd brig.
- Darpariaeth teithio llesol annigonol gyda throedffyrdd anghyson ar yr A496 a Ffordd Mochras, heb unrhyw ddarpariaeth ddiogel i feicwyr, er bod Llwybr Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol 8 yn pasio drwy'r pentref.

Yn hanfodol, o safbwynt cyllid, mae mynediad at Faes Awyr Llanbedr wedi'i leoli oddeutu 1.5km i'r gorllewin o'r pentref.

Mae'r dyheadau ar gyfer gwelliannau trafndiaeth yn hir-sefydlog:

- 1950au - Cynigion am ffordd osgoi wedi'u trafod am y tro cyntaf.
- 1992 - Cyngor Gwynedd yn cynnig ffordd osgoi gydag un ffordd gerbydau. Y cynllun heb fwrw yn ei flaen.
- 2015 - Astudiaeth WelTAG yn cynnig ffordd osgoi 1.5km gyda chyflymder dyluniad o 100km/awr, gan gynnwys mynedfa ar wahân i'r maes awyr. Cost o £15m.
- 2019 - Pecyn cyllido wedi'i roi at ei gilydd, gan gynnwys £4m o'r UE ar gyfer datblygiadau ffordd a'r maes awyr.
- 2020 - Caniatâd cynllunio wedi'i roi.
- 2021 - Panel Adolygu Ffyrdd yn argymhell na ddylid bwrw ymlaen gyda'r cynllun.
- 2021 - Cyllid UE wedi'i golli, gan olygu bod Snowdonia Aerospace yn tynnu eu buddsoddiad yn ôl.

- 2022-23- Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer gwaith WelTAG cynnar gan ddefnyddio canllawiau 2024.
- 2025- WelTAG 2 wedi'i gwblhau, yn argymhell ffordd liniaru cyflymder isel, wedi'i gyfuno â phegyn o welliannau trafnidiaeth cynaliadwy.
- 2025-26 – Y CBC yn argymhell bod Cronfa Trafnidiaeth Rhanbarthol £400k yn cael ei ddyfarnu i'r prosiect ar gyfer gwaith WelTAG3.


3. CYNIGION WELTAG

Mae'r Achos dros Newid a gynhaliwyd ar ddechrau'r achos busnes WelTAG mwyaf diweddar wedi adnabod y problemau, y cyfyngiadau a'r cyfleoedd yn Nhabl 1.

Tabl 1

Problemau	
• Diogelwch (cyfradd gwrthdrawiad uchel) • Dibyniaeth ar geir preifat (80% rhannu modd, teithiau pell) • Mynediad at wasanaethau (yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer Mynediad at wasanaethau)	
• Datgysylltiad cymunedol a'r ymdeimlad o le • Economi ymwelwyr (mwy na dwbl y galw o ran traffig yn yr haf) • Gwydnwch (dim llwybr amgen)	
Cyfyngiadau	Cyfleoedd
• Parc Cenedlaethol • Llifogydd (afonol ac arfordirol) • Yr amgylchedd hanesyddol • Aliniad y ffordd (dim gofod i ledw neu ail-ddyrannu gofod y ffordd)	• Cyfleoedd i wella teithio llesol • Gorsaf rheilffordd, gyda'r cyfle i wella gwasanaethau rheilffordd a bws • Cyflogaeth- datblygiad posib y maes awyr • Ymdeimlad o le (parth cyhoeddus)

Mae ardal yr astudiaeth ar gyfer y gwaith WelTAG i'w weld yn Ffigwr 1.



Ffigwr 1: Ardal yr Astudiaeth WelTAG (WSP, Cyngor Gwynedd)

Ystyriwyd amrediad eang o welliannau trafndiaeth drwy gamau 1 a 2 WelTAG.

Yr opsiynau sy'n perfformio orau yw'r rhai sy'n cyfuno ffordd liniaru cyflymder isel gyda mesurau sy'n gwella trafndiaeth gynaliadwy. Mae'r argymhellion yn cynnwys:

- Ffordd liniaru 40mya.
- Yn y pentref
 - rheoli cyflymder (lleihau cyfyngiad cyflymder ac arwyddion),
 - gofod sy'n cael ei rannu dros bont afon Artro,
 - cyfyngiadau parcio,
 - parcio i feics,
 - loceri danfoniadau,
 - safle bws,
 - gwell goleuadau stryd,
 - arwyddion croeso a gwelliannau i'r parth cyhoeddus,
 - byrddau gwybodaeth am deithiau gwasanaethau cludiant cyhoeddus,
 - croesfan wedi'i chodi a chroesfan i gerddwyr,
 - cyfyngiadau ar gerbydau HGV drwy'r pentref
 - gwelliannau i lwybrau teithio llesol ar hyd yr A496, i Barc Carafanau Mill (troedffordd gyda beicio ar y ffordd), a gwelliannau i droedffyrdd i Lwybr Cyhoeddus 41 a thrwy Bryn Deiliog.
- Ar hyd Ffordd Mochras:
 - rheoli cyflymder (lleihau cyfyngiad cyflymder ac arwyddion),
 - cau Ffordd Mochras i gerbydau,

- o mesurau tawelu traffig a llwybr teithio llesol drwy Faes Artro, o'r pentref i'r Orsaf Rheilffordd (ail-ddyrannu gofod y ffordd), ac o'r Orsaf Rheilffordd i Fochras (troedffordd gyda beicio ar y ffordd).

4. MAES AWYR LLANBEDR FEL ASED GENEDLAETHOL STRATEGOL

Ystyrir bod gan safle Maes Awyr Llanbedr y potensial i fod yn ased cenedlaethol strategol yn y sector awyrofod.

Mae'r economi gofod yn rhan gwerthfawr, sy'n tyfu, o economi y DU:

- £18.6 biliwn o incwm blynyddol i economi gofod y DU a 55,000 o swyddi yn 2025¹.
- Amcangyfrif i dyfu £25.8 biliwn erbyn diwedd y ddegawd gyda thua 28-55,000 o swyddi eraill²

Yn yr un modd, mae'r sector dronau yn dod yn fwyfwy pwysig i economi'r DU:

- Marchnad y DU £600-700 miliwn yn 2025, gan dyfu i £1.1-1.2 biliwn erbyn 2030³.
- Gallai mabwysiadu dronau masnachol fod yn werth hyd at £45 biliwn i economi'r DU erbyn 2030⁴

Mae gan faes awyr Llanbedr botensial anferth i gefnogi'r sectorau hynny yng Nghymru:

- Cyn safle'r Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD) hyd 2004.
- Cafodd ei werthu i Awdurdod Datblygu Cymru ac ar hyn o bryd mae ar les hir i Snowdonia Aerospace LLP (SAC)
- Tair rhedffordd (y brif redffordd 2.2km, yn ogystal â dwy redffordd 1.4km ac 1.3km)
- Gofod awyr wedi'i wahanu yn union o amgylch Maes Awyr Llanbedr ar gyfer profi cerbydau awyr y dyfodol, yn cynnwys dronau math *Beyond Visual Line of Sight* (BVLOS) a Cherbydau Symudedd Awyr Trydanol ('Parth Peryglus' masnachol cyntaf y DU).
- Coridor awyr o'r maes awyr i'r Parth Peryglus MoD presennol ym Mae Ceredigion fel bod modd cael amrediad estynedig pellach, uchder a phrofi dygnwch, yn cynnwys o bosib ger gweithrediadau gofod

Cyfeirir at y safle yn Strategaeth Gofod Cenedlaethol y DU, gan bod ganddo'r potensial i chwarae rhan mewn datblygu Ecosystem Gofod ar gyfer y DU gyfan, yn enwedig o ran ei allu lansio orbital. Caiff hefyd ei gydnabod yn ffurfiol gan Asiantaeth Ofod y DU fel un o bedwar safle lansio llorweddol posib yn y DU, a'r unig un yng Nghymru.

Mae cyhoeddiad Llywodraeth Cymru yn 2022, "Cymru, Gwlad Ofod" hefyd yn manylu ar y rôl bwysig y gallai Llanbedr ei chwarae.

Dros y 5 mlynedd diwethaf, mae Canolfan Awyrofod Eryri wedi datblygu cyfres o fesurau seilwaith a chyfleusterau newydd sy'n gadael iddyn nhw gynnig tri phrif wasanaeth:

1. Darparu gwasanaethau profi hediadau i'r sector dronau yn y DU, yn cynnwys:
 - Cyfleusterau maes awyr
 - Parth Peryglus Parhaol

¹Taflen Wybodaeth: Sector Gofod y DU - GOV.UK

²The PSC - Space for Growth report.pdf

³Adroddiad Marchnad UK UWV (Dronau) 2025-2030 [150 o Dudalennau & 200 o Dablau]

⁴Advancing airborne autonomy: commercial drones saving money and saving lives in the UK

- Safle profi sydd wedi'i asesu'n barod gan y CAA (Haf 2025)
 - Tenantiaid hirdymor
 - Anduril
 - Windracers
2. Gwaith ymchwil a datblygu cydweithredol "*drones for good*", yn cynnwys:
- Prosiect "*Dragon's Eye*" sy'n edrych ar radar cost isel ar gyfer rheoli traffig awyr y DU yn y dyfodol.
 - Prosiect "*Dragon's Heart*" sy'n datblygu gwasanaeth danfon dronau meddygol i GIG Cymru - Bid am Wedd 2 yn 2026 ar gyfer prototeip gwasanaeth danfon gwaed 2028
3. Darparu gwasanaethau RDT&E i sector gofod y DU, yn cynnwys:
- Gwedd 1- gwaith i wella diogelwch, gwydnwch
 - Prosiect "*Dragon's Nest*" yn cyflawni hyfforddiant peirianeg gofod ac ymgysylltu STEM
 - Cysylltiadau ag M-SParc, a Phrifysgolion Bangor, Wrecsam ac Abertawe
 - Bidio am wedd 2 yn 2026 ar gyfer galluedd Ymwybyddiaeth Parth Gofod erbyn 2029/30
 - Gwedd 3- cynlluniau i symud i astro-dwristiaeth, e.e. datblygu planetariwm

Mae'r Ganolfan Ofod yn parhau i dyfu a denu busnes ac mae'n gweithredu fel ffocws positif, ffisegol ar gyfer y diwydiant gofod yng Nghymru ac yn ffocws ar gyfer ymestyn allan gyda STEM ac ymgysylltu academiaidd â phrifysgolion Cymru. Mae SAC yn rhagweld bwrw ymlaen ag ail wedd o fuddsoddi yn y Ganolfan Ofod o fis Mawrth 2027.

5. ACHOS STRATEGOL MAES AWYR LLANBEDR

Datblygwyd Cynllun Strategol Parth Buddsoddi Eryri yn 2018. Roedd yn cynnwys yr amcanion a ganlyn ar gyfer safle Maes Awyr Llanbedr:

- Parhau i weithio gyda pherchnogion y safle a phartneriaid strategol eraill i ddatblygu'r safle fel canolfan rhagoriaeth hynod o gystadleuol ar gyfer UAS (*Unmanned Aircraft Systems*), technolegau datblygol a'r sectorau awyrofod a gofod;
- Yn y cyd-destun hwn, hyrwyddo'r safle fel estyniad o amgylchedd UAS unigryw Cymru a lleoliad gwyb ar gyfer profi, gwerthuso ac arddangos. Parhau i ymgysylltu â'r UK Space Agency a rhanddeiliaid ehangach i ddeall yn well sut all y safle gefnogi dyheadau'r DU am gyfleuster lansio cost isel a allai hefyd ddarparu prawf strategol a lleoliad gwerthuso i gefnogi sector gofod y DU;
- Gosod Canolfan Awyrofod Eryri yn gadarn fel rhan o gynnig y sector awyrofod ehangach yng Nghymru;
- Cefnogi a dad-risgio buddsoddiad a datblygiad sy'n cael ei arwain yn fasnachol ar y safle, er budd yr holl ddefnyddwyr, yn cynnwys mentrau lleol bychan;
- Sicrhau bod safle Canolfan Awyrofod Eryri/Parth Buddsoddi Eryri (SEZ) yn cael ei amlygu fel cyfle strategol o bwys cenedlaethol fel rhan o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol sydd ar ddwyfod i Gymru.

Ym mis Mawrth 2020, cynhyrchodd Awyrofod Eryri LLP eu Hadroddiad Terfynol - Horizontal Spaceport Development Fund Project Spaceport Snowdonia Development Plan Final Report.

Mae hyn yn cynnwys y nod sydd wedi'i ddynodi i ddatblygu Spaceport Snowdonia fel canolfan brofi ymchwil, datblygiadau a chanolfan werthuso fawr i gefnogi hyfforddiant a lansio lloerenni orbital, RDT&E sy'n ymwneud â'r gofod, sy'n canolbwyntio ar y DU.

Roedd yr adroddiad yn darogan, er mwyn cynnwys y twf busnes a ragwelwyd yn hwb Spaceport Snowdonia, y byddai Snowdonia Aerospace yn creu amrediad o ofod swyddfa, labordy, gweithdy peirianeg ac awyrendy defnydd hyblyg mewn dau barc technoleg newydd wedi'u lleoli yn ffiniau'r maes awyr, gan roi cyfanswm o 42,000m².

Byddai'r unedau yma'n rhai o faint a gallu amrywiol ac ar gael i'w rhentu ar sail wythnosol, misol neu flynyddol (neu mewn amgylchiadau penodol sydd ar gael i'w prynu yn gyfan gwbl). Bydd y math o gyfleusterau sy'n cael eu cynnig yn yr unedau gan y tenantiaid angor yn cael eu teilwra yn unol â'u hanghenion busnes perthnasol.

Roedd yr Asesiad Effaith Economaidd yn adnabod cyfanswm cyfraniad ychwanegol y Prif Gynllun i fod hyd at 515 o swyddi o sail o 46, a byddai disgwyl i'r trawstoriad fod fel a ganlyn:

- Swyddi erodrom ychwanegol i gefnogi busnes craidd Snowdonia Aerospace;
- Swyddi Parc Technoleg ychwanegol i gefnogi tenantiaid angor a chwsmeriaid sy'n ymweld;
- Swyddi newydd yn ymwneud â thwristiaeth a swyddi ategol i gefnogi'r gwesty, canolfan ymwelwyr, ac ati.

Byddai'r rhan fwyaf o'r swyddi ychwanegol yn gysylltiedig â'r Parc Technoleg a'r busnes sy'n cael ei greu gan denantiaid angor a chwsmeriaid sy'n ymweld. Rhagwelir y bydd swyddi yn y categori hwn yn gymysgedd o staff dros dro a pharhaol presennol yn symud i ardal Eryri, a phobl leol.

Ar gyfer pobl leol fydd wedi'u recriwtio, bydd Snowdonia Spaceport yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru/Busnes Cymru a Chyngor Gwynedd i adnabod casgliad priodol o ymgeiswyr posib gyda chymwysterau a hyfforddiant addas. Byddai hyn hefyd yn cael ei gynyddu gyda gwaith ymgysylltu Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM) efo ysgolion a cholegau lleol a chysylltiadau gyda Phrifysgolion Aberystwyth, Bangor a Glyndŵr.

Casgliad yr adroddiad oedd eu bod yn credu y bydd Spaceport Snowdonia yn fusnes masnachol hyfyw a phroffidiol, un sy'n ased unigryw a chenedlaethol wrth galon rhaglen R&D Gofod y DU, gan helpu cwmnïau i arloesi a chyflymu eu datblygiad, o'r cam o brofi'r cysyniad, draw i brototeip graddfa lawn ac ecsbloetio'r farchnad ar raddfa fawr. Hefyd, bydd Spaceport Snowdonia yn flaenllaw ac yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol i Gymru, sy'n cynnig cyflogaeth technoleg uwch, helpu twristiaeth a helpu i adfywio'r economi rhanbarthol.

Bu buddsoddiad o £1.5m ar y safle ers iddo gael ei ddynodi'n rhan o Barth Menter Eryri. Cafodd yr arian hwn ei ddefnyddio i uwchraddio'r seilwaith yn y safle a chreu Gallu Gweithredu Cychwynnol. Yn ogystal, cafodd £7.5m o arian y Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) ei ddyfarnu yn 2019, £3.5m ohono i helpu i gyllido £5.4m o ddatblygiadau pellach yn y safle gyda'r swm gweddilliol yn mynd tuag at y rhan gyntaf o ffordd fynediad newydd.

Yn ôl adroddiad arfarnu economaidd mewn perthynas â'r cynllun gwelliannau trafndiaeth arfaethedig sy'n cael eu gwneud gan WSP, mae'r ffordd liniaru cyflymder isel arfaethedig yn Llanbedr yn parhau i fod yn hanfodol o ran datblygiad a diogelwch y maes awyr yn y dyfodol.

Heb y cynllun ffordd, mae'n annhebygol y bydd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau pellach yn cael ei roi. Byddai hyn yn golygu na fyddai modd i Snowdonia Aerospace fwrw ymlaen gyda'r Prif Gynllun arfaethedig. Fel mae pethau ar hyn o bryd, mae'r ffordd fynediad bresennol yn ei gwneud yn hynod anodd ac anniogel i lwytho offer ar/oddi ar y safle (ac mae'n anodd i gerbydau, yn cynnwys cerbydau HGV, i gael mynediad i'r safle). Yn ogystal, nid dim ond ymestyn y gweithgarwch economaidd yn y maes awyr fydd y Prif Gynllun - bydd hefyd yn helpu i gynnal y lefelau gweithgarwch presennol. Mae'r adroddiad arfarnu economaidd yn nodi bod y maes awyr eisoes wedi colli tri thenant oherwydd y problemau mynediad a dirywiad ehangach y cyfleusterau. O ystyried natur arbenigol y cyfleuster, mae ail-leoli tenantiaid o'r maes awyr hefyd yn cynrychioli colled uniongyrchol o weithgarwch economaidd i Gymru.

Mae'r adroddiad arfarniad economaidd yn rhagweld y bydd cyfanswm y swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn ychwanegol net sy'n cael eu creu gan ddatblygiad y maes awyr yn gyfystyr â 311 o swyddi uniongyrchol a 199 o swyddi anuniongyrchol. Mae hyn yn gyfystyr ag oddeutu £12.1 miliwn mewn GVA y flwyddyn i'r economi leol. Ar ôl cyfrif am yr achos cyfeirio a rhagfynegi Gwrth Presennol y Buddion (PVB) dros gyfnod o 10 mlynedd, mae hyn yn gyfystyr â £50,877,609 (prisiau 2023).

Bydd llawer o'r swyddi newydd, ychwanegol mewn diwydiannau gwerth uwch lle bydd y cyflogau hefyd yn uwch o gymharu â rhai o'r swyddi mwy traddodiadol sydd yn yr ardal. Byddai hyn yn golygu y byddai gweithwyr lleol yn elwa o'r sgiliau sy'n gysylltiedig â'r swyddi gwerth uwch yma. Bydd y sgiliau sy'n gysylltiedig â'r diwydiannau hynny yn 'symudadwy' ac yn drosglwyddadwy i sectorau eraill, gan fod o fudd sylweddol i'r farchnad lafur leol a'r economi leol.

6. BARN Y CYHOEDD

Yn lleol, mae llawer o gefnogaeth gan y cyhoedd i ffordd liniaru a'r gwelliannau trafndiaeth cysylltiedig. Mae gan dudalen Facebook benodol ar gyfer y pwnc dros 10,000 o ddilynwyr, ac mae'r sgrin-luniau isod yn dangos rhai o'r penawdau a welwyd yn ystod yr haf 2026.




Motorhome stand-off reignites call to solve 'shambolic' traffic problems in Llanbedr

Long-suffering locals say the incident highlights the need for a bypass

Teenagers 'take control and direct traffic' in traffic-choked Gwynedd village

Fearing total gridlock, two youngsters began directing traffic at the notorious bottleneck. Saluted for making a massive difference, there have been calls to employ them on a regular basis



Mae rheswm da pam fod y cyhoedd yn cefnogi hyn. Mae'r seilwaith ffyrdd cul a chyfyngedig yn y pentref yn achosi tagfeydd traffig ac mae hyn yn cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd a'r gymuned leol:

- Amseroedd siwrneiau annibynadwy
- Amgylchedd annigonol i gerddwyr a beicwyr
- Ansawdd aer
- Allyriadau carbon

Mae effaith hyn i'w deimlo'n waeth yn ystod yr haf, gan fod harddwch naturiol yr ardal, ei lleoliad arfordirol, ac agosrwydd un o feysydd gwersylla mwyaf Ewrop, oll yn ffactorau sy'n denu niferoedd uchel o ymwelwyr.

7. Y CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL (RTP) A'R GRONFA TRAFNIDIAETH RANBARTHOL (RTF)

Ar hyn o bryd, un o'r ffynonellau cyllid pwysicaf ar gyfer cynlluniau trafndiaeth lleol yw'r Gronfa Trafnidiaeth Rhanbarthol, gyda'r CBC yn gweithredu fel y sefydliad sy'n blaenoriaethu cynlluniau am gyllid o'r pot hwn o arian.

Mae Gwelliannau Trafnidiaeth Llanbedr yn gynllun pwysig yn y rhanbarth, ac yn un o'r cynlluniau prin hynny sy'n cael eu henwi yn benodol yn ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTP). Yn yr RTDP, mae'n cael ei restru fel cynllun â blaenoriaeth uchel, ac mae'r gwaith datblygu wedi cael ei ariannu drwy'r RTF ym mlwyddyn ariannol 2026/27.

Fodd bynnag, mae amcangyfrifon cost diweddaraf y cynllun i'w gweld yn Nhabl 2 (wedi'u cymryd o nodyn briffio Cyngor Gwynedd).

	Disgrifiad	Dyddiadau disgwylidig	Costau
Gwedd 1	Ffordd Liniaru Cyflymder Isel	2026 – 2030	£40m
Gwedd 2	Gwelliannau traffig ac amgylcheddol yn y pentref	2030	£4m
Gwedd 3	Gwelliannau Teithio Llesol ychwanegol yn cynnwys cysylltiadau ar hyd yr A496 i Harlech a gwelliannau teithio llesol ar hyd Ffordd Mochras.	2031 – 2033	£8m
Gwelliannau ychwanegol	Maes parcio yng Ngorsaf Rheilffordd Llanbedr		£1.5m

Tabl 2

Fel y gwelir yn Nhabl 2, mae cost y ffordd liniaru ei hun yn £40 miliwn. Cyfanswm y gyllideb RTF ar gyfer Gogledd Cymru yn 2026/27 yw c.£28m ac rydym wedi cael ein cynghori gan y Llywodraeth i dybio cyllideb wastad (heb unrhyw gynnydd yn ymwneud â chwyddiant) ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Os oes cyfran fawr o ddryniad yr RTF yn cael ei ddefnyddio i adeiladu prosiect priffyrdd newydd, ni fyddwn yn cyflawni dyheadau trafndiaeth cynaliadwy ein RTP.

Mae hyn yn golygu nad oes modd cyflawni cynllun Gwelliannau Trafnidiaeth Llanbedr drwy'r Gronfa Trafnidiaeth Rhanbarthol ei hun. Fodd bynnag, efallai y bydd yr RTF yn ffynhonnell bwysig o arian cyfatebol a allai gael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith datblygu neu i gyflawni rhai o'r gwelliannau teithio llesol neu amgylcheddol.

8. FFYNONELLAU ARIANNOL SY'N YMWNEUD Â THWF

Mae'n amlwg na ddylid ystyried y gwelliannau priffyrdd yn Llanbedr ar eu pen eu hunain, a dylai'r partneriaid fod yn ceisio dod ag ef ymlaen fel rhan o ddatblygiad ehangach safle'r Maes Awyr.

Mae gan y maes awyr y potensial i drosglwyddo'r cynnig cyflogaeth yn y rhan yma o Wynedd. Er mwyn i hynny ddigwydd, mae angen gwneud gwelliannau sylweddol i fynediad y safle.

Yn ei dro, bydd cynllun i wella mynediad i'r safle cyflogaeth hefyd yn rhoi cyfle i wella'r amgylchedd ac ansawdd bywyd i'r gymuned leol drwy leddfu'r problemau traffig.

Wrth ei ystyried o'r persbectif yma, mae'r Gwelliannau Trafnidiaeth yn gynllun Twf neu Adfywio yn hytrach na chynllun trafndiaeth penodol. Yn yr amgylchedd cyllido presennol, mae'n ymddangos y byddai'r ffynonellau cyllido sy'n canolbwyntio ar dwf a chreu swyddi yn ddatrysiad mwy priodol i ddarparu mwyafrif y cyllid sydd ei angen ar gyfer y prosiect yma. Mae'n bosib y gallai hyn gael ei gefnogi gan swm priodol a chymesur o gyfraniad y Gronfa Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Felly, dylai Uchelgais Gogledd Cymru, Cyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru, a phartneriaid eraill edrych ar weithio gyda'r datblygwyr i gyflawni twf a swyddi yn y maes awyr. Ar hyn o bryd, mae diffyg gwaith sy'n ystyried buddion a pha mor gyflawnadwy yw dwy agwedd datblygiadau Llanbedr (y gwelliannau trafndiaeth a'r creu swyddi), fe un prosiect cyfun a sut fyddai modd cefnogi hyn drwy gyllid megis y Gronfa Twf Lleol neu'r Cynllun Twf yn y dyfodol.